# ECO'R WYDDFA

Rhif 165 NADOLIG '90/IONAWR '91 Pris 25c

# Y CAROLWYR



*Y carolwyr yw Mark Owen, Owain Machno Lloyd, Dylan Williams, Elen Morgan Jones a Sioned Mair Jones o Lanrug. O Fangor y daw Mirain Roberts, canol y rhes flaen. Tu ôl iddynt mae'r actores Siw Huws. Fe'u gwelwch yn y drama gyffrous 'Y Dryw yn y Drain'.*

**Sefydlwyd cwmni Llun y Felin gan Angela a Dyfan Roberts ers tua blwyddyn, ym Melin Crawia, Llanrug, er mwyn cynhyrchu dramâu i blant Cymru ar S4C. Bellach mae tair drama o'r gyfres gyffrous 'Yr Awr Cyn y Wawr' yn barod i'w dangos, ac mae'r gyntaf, sef 'Y Dryw yn y Drain' yn cael ei darlledu'r Nadolig hwn. Bydd yn mynd allan ar S4C am 4.30 pm ar Noswyl Nadolig.**

Stori ydi'r 'Dryw yn y Drain' am fachgen o'r enw Tomi. Mae'n dwyn gwn ei dad, ac yn saethu dryw bach. Mae hyn yn deffro rhyw bwerau annaturiol yn y goedwig a chaiff Tomi ei hun yn ôl mewn cyfnod cyntefig pan oedd Cymru yn un fforest drwchus o ofn a dychryn!

Seilir y ddrama ar hen draddodiad hela'r dryw, oedd yn digwydd yng Nghymru ac Iwerddon amser y Nadolig.

Dylan Eurig o Fangor sy'n chwarae'r brif ran, ond mae nifer o blant o Ysgol Gynradd Llanrug yn cymryd rhan fel carolwyr, ac eraill mewn côr yn yr eglwys dan arweiniad Mrs Mair Huws.

Gwnaeth y plant i gyd eu gwaith yn dda iawn wrth ffilmio yng nghoed Glynllifon ac yn Eglwys Llaneugrad, Môn — er, roedd hi'n anodd dychmygu ei bod hi'n Nadolig, a'r ffilmio ei hun yn digwydd ynghanol Ebrill!

Mae'r ail yn y gyfres — 'Llygad Hacky Basham' yn cael ei darlledu ar Ionawr 4 am 4.45, a'r drydedd 'Y Gwahoddiad' ar yr un amser ar Ionawr 11.

Blant a rhieni, neiniau a theidiau . . . cofiwch wylio!

# ANRHEGION NADOLIG ARBENNIG YN LLANBERIS



**Cyflwynwyd anrheg Nadolig go arbennig gan ddau o drigolion y fro i Feddygfa Llanberis. Mae'r ddau yn wynebu Nadolig eleni yn dilyn llawdriniaethau yn ystod y flwyddyn a fydd yn gymorth i wella ansawdd eu bywydau. A pha well ffordd o ddechrau cyfnod newydd na chyflwyno anrheg a fydd yn fodd i helpu cleifion eraill yn ein bro.**

Rai misoedd cyn iddo dderbyn y newyddion am lawdriniaeth yn Ysbyty Harefield, roedd Alan Pritchard, Nant Peris, wedi cyflwyno rhodd ariannol i'r Feddygfa yn Llanberis ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio i brynu offer meddygol er budd rhai'n dioddef o afiechyd ar y galon.

Penderfynodd staff y Clinic drefnu noson goffi yn Llanberis i chwyddo'r gronfa, ac fe'i cynhaliwyd ym mis Medi eleni. Gwnaethpwyd elw o dros £1,500. Erbyn hynny, roedd Alan eisoes yn Harefield yn derbyn calon newydd.

Yn dilyn y noson goffi, penderfynodd Ken Jones, a dderbyniodd aren newydd yn gynharach eleni, drefnu Ras Hwyl o amgylch Llyn Padarn. Unwaith eto, bu'r noddi yn hynod lwyddiannus, a chasglwyd dros £1,000.

Penderfynwyd gwireddu cais gwreiddiol Alan a phrynwyd peiriant ECG at ddefnydd y Feddygfa. Cyflwynwyd y peiriant gan Alan a Ken i'r Meddygon Pamela Jones a Robin Parry ar Ragfyr 6 — dyddiad arwyddocaol iawn, gan mai dyma ddydd Gŵyl Sant Nicolas, y Santa Clos gwreiddiol.

Dymuna'r meddygon teulu a staff y clinigau yn Llanberis, Llanrug a Deiniolen, ddiolch i bawb o fewn y fro a fu mor hael tuag at y gronfa arbennig hon.

# CROESO'N ÔL



*Mae'r wên yn dweud y cyfan! Mae Karen Jones wedi dychwelyd gartref i ddiogelwch Llanberis o Baghdad, prifddinas Irac, ble roedd yn nyrsio. Ar ôl yr hir ddisgwyl, yr ansicrwydd mawr a'r poeni, mae'r stori yn gorffen yn hapus a Karen yn ôl gyda'i rhieni Mair a Ken Jones a'i chwaer Alice. Bydd yn Nadolig llawen iawn ym Maes Padarn!*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr**

# ECO'R WYDDFA

RHIF 165

NADOLIG/IONAWR 1991

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:** Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt (870760)

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

**ECO'R IFANC:** Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Tanycoed (C'fon 5668)

**DYDDIADUR Y MIS:** Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (Waunfawr 200)

**FFOTOGRAFFWYR:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug (C'fon 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran, (Portdinorwig 670726)

**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

**CEUNANT:** Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLEN:** W O Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG:** Mr D J Thomas, 8 Maes Eilian (870773)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri, 870491.

**LLANRUG:** Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

**NANT PERIS:** Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael y Bryn. (872 276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, IONAWR 31**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH, IONAWR 22**
os gwelwch yn dda.

# Llafar

## 'YR IFANC A ŴYR: YR HEN A DYBIA'

**Yn unol â 'thraddodiadau' modern y Nadolig — coed plastig a diffyg 'corn' i Siôn — lansiwyd ymgyrch y llywodraeth i berswadio pobl rhag yfed a gyrru dros gyfnod yr Ŵyl. Mae'r ymgyrch yn arferol yn cychwyn ar ddechrau Rhagfyr, gyda chadwyn o hysbysebion i drosglwyddo'r neges i bob perchen car ym Mhrydain. Ond eleni, mae'n ymddangos fod patrwm a phwyslais yr holl hysbysebu wedi ei newid.**

**Y cyfan a welir yn yr hysbyseb eleni yw wyneb merch fach yn wylo. Yn y cefndir clywir llais y fam yn ffraeo â'r tad. Mae'r tad wedi lladd plentyn arall tra'n gyrru car ar ôl gor-yfed. Mae cyfoedion y ferch fach yn galw'i thad yn fwrdrwr.**

**Yn ôl gwaith ymchwil i ddamweiniau yn ymwneud ag yfed a gyrru, mae'n ymddangos fod pobl ifanc hyd ddeg ar hugain oed yn fwy ymwybodol o beryglon yfed a gyrru, ac yn llawer parotach i ddefnyddio tacsi neu hyd yn oed i beidio yfed os ydynt â gofal car.**

**Mae'r hysbyseb wedi ei hanelu'n unswydd at y gyrrwyr rheini (dynion yn bennaf) rhwng deg ar hugain a hanner cant oed. Dengys ymchwil fod dynion yn y grŵp oedran hwn yn dal i dybio eu bod yn medru gyrru car cystal ag arfer hyd yn oed ar ôl bod yn yfed.**

**Oherwydd natur yr hysbyseb, nid yw'n cael ei dangos ar y teledu ond wedi naw o'r gloch y nos.**

**Fydd yr hysbyseb yn pigo cydwybod? Yfwyr a gyrrwyr y fro; os ydi'r cap yn ffitio . . . Gwyliau dedwydd.**

# ANTUR PADARN

Cyfarfu Pwyllgor Antur Padarn yn yr Institiwt, Llanrug ar nos Iau, Rhagfyr 6.

Adroddwyd bod yr Holiadur yn awr yn nwylo'r wasg a'r gobaith yw gweld ei gyhoeddi erbyn canol mis Ionawr. O ddeall hyn cytunwyd bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn yr **Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis, nos Fercher, Chwefror 6 am 7.00** er mwyn cytuno ar y trefniadau dosbarthu.

Er mwyn ceisio sicrhau bod cymaint o bobl ac sydd bosibl o bob pentref yn bresennol yn y cyfarfod hwn cytunwyd i geisio caniatad yr Eco i gynnwys taflen esbonio yn y rhifyn hwn.

Yr apêl yw ar i bawb sydd yn bwriadu dod i'r cyfarfod i anfon gair yn ôl i'r Cadeirydd yn dweud hynny, gan ei bod yn bwysig cael gwybod faint o bobl sydd yn barod i'n cynorthwyo yn y gwaith pwysig hwn.

Deallwyd bod yr ymateb i Gystadleuaeth y Logo wedi dod i law ac y bydd y beirniaid yn penderfynu pwy sydd yn fuddugol ym mis Ionawr. Yna gobeithir trefnu cyfarfod i gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr ac edrychir ymlaen at weld yr Antur yn arddangos logo swyddogol yn fuan wedi hynny.

Cytunwyd bod eleni wedi bod yn flwyddyn hanesyddol a gobeithiol iawn gyda Chwmni Leading Leisure yn penderfynu dros beidio a bwrw ymlaen gyda'u cynlluniau a bod addewid gobeithiol am swyddi parhaol a safonol ar safle Glyn Rhonwy yn y dyfodol. Cytunwyd i gyflwyno diolchiadau yr Antur i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn a aeth heibio.

Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor yn yr Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis ar **nos Fercher, Ionawr 16 am 7.00.** I bawb arall, cofiwch am y cyfarfod pwysig ar Chwefror 6.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

DECHRAU EICH BUSNES EICH HUN

CWRS NOS

DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG
YN RHAD AC AM DDIM

★ **A ydych yn gweithio ac yn dymuno dechrau busnes?**
★ **Beth am gwrs nos i'ch helpu i ddadansoddi'ch syniadau a pharatoi'n drylwyr.**

Yn dechrau ar IONAWR 22, 1991 yn
BRON CASTELL, BANGOR

**Manylion pellach MENTER GWYNEDD - (0248) 750777**

Rydym yn hyfforddwyr cyfle cyfartal/Noddwyd gan yr Asiantaeth Hyfforddi

# LLYTHYR

## RHOI'R GORAU I SMOCIO

*Annwyl Olygydd,*

*A gaf i drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa hysbysebu na chynhelir y Clinic Person Holliach misol yn y flwyddyn newydd. Mae'r un gwasanaeth yn awr i'w gael gan y meddygon teulu yn ystod yr wythnos.*

***Ond, ar Ionawr 3, bwriedir dechrau grŵp i gynorthwyo y rhai sydd am roi gorau i smygu.** Grŵp bach i ddim mwy na 10 o bobl ar unwaith i'w gynnal yn wythnosol am chwech wythnos yw'r bwriad. Gofynnir am flaendal o £3.00 am y cwrs i dalu am nwyddau.*

*Am fwy o wybodaeth a chofrestru, cysylltwch â mi yn y Clinic uchod, neu ar rif ffôn **Llanberis 870291**, os gwelwch yn dda.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*CERI PIERCE WILLIAMS*
*Canolfan Iechyd,*
*Llanberis.*

## DATBLYGIADAU YNG NGLYN RHONWY

Bellach cymeradwywyd cais gan grŵp Ryder-Knight ar ran cwmni Americanaidd sy'n bwriadu cynhyrchu offer meddygol mewn adeilad tri llawr ar safle Glyn Rhonwy.

Yn ôl geiriad y cais cynllunio, bydd y cynhyrchion yn 'diagnostic kits of reagents to be used in the diagnosis and treatment of human disease.' Bydd y gwahanol brosesau yn cynnwys trin cemegau, rhewi a sychu, a phuro dŵr. Y gobaith yw y bydd nifer helaeth o bobl leol yn cael eu cyflogi ar y safle mewn amser.

Rwan, deallwn fod trafodaethau yn mynd ymlaen rhwng prif swyddogion Cyngor Arfon a staff academig Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor, ynglŷn â'r posibilrwydd o greu datblygiad 'Y Byd Byw' ar ran arall o safle Glyn Rhonwy.

Y bwriad yw creu arddangosfa barhaol yn egluro'r byd byw — yn lleol ac yn fyd-eang.

Gallai fod o fudd addysgiadol i ysgolion y fro, ac yn ogystal, yn atyniad twristaidd. Hyderir y bydd gwaith parhaol i tua 70 o bobl leol wedi i'r cyfan gael ei gwblhau. Cyn symud ymlaen â'r cynllun bydd yn rhaid trefnu astudiaeth ymarferoldeb a allai gostio hyd at £80,000.

MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

# 'RHIAN OWEN — SOPRANO'



Os ydych am gefnogi talent lleol y Nadolig hwn, beth am roi tâp 'Rhian Owen — Soprano' (Sain C454) yn bresant i un o'r teulu?

Mae arno bymtheg o ganeuon yn amrywio o'r clasurol i'r ysgafn, ac mae'n cynnwys y recordiad cyntaf o 'Chwe Chân i Blant' gan Dilys Elwyn Edwards, y gyfansoddwraig enwog o Gaernarfon.

Mae Rhian, o Lanberis, bellach yn gantores broffesiynol. Ar ôl gadael Ysgol Brynrefail, treuliodd dair blynedd yng Ngholeg Cerdd Caerdydd a dwy flynedd yng Ngholeg Cerdd Manceinion.

Rwan mae'n 'ffrilansio' — yn teithio i ganu mewn cyngherddau trwy Brydain o'i chartref presennol yng Nghaerdydd. Uchelgais Rhian yw ymuno â Chwmni Opera.

Gellir prynu tâp Rhian Owen mewn unrhyw siop recordiau gwerth ei halen ac yn lleol yn y siopau canlynol: Siop Wlân Llanberis; Siop Esgidiau Glen's Footwear, Llanberis; Siop Goed Llanberis; Modurdy Fiat Cwm-y-Glo a Siop Drin Gwallt Crib Coch, Llanrug. Y pris yw £6.49.

# CLYWCH Y CLYCHAU'N SEINIO . . .

Mae grŵp o ferched wedi ail-ddysgu'r hen grefft o ganu clychau llaw. Maent yn ymarfer yn Y Stiwdio, ger Gwesty'r Fictoria, Llanberis, dan arweiniad Linda Griffith (gynt o Lanberis, ond nawr o'r Felinheli) — ble mae cynifer o blant y fro yn cael gwersi piano ganddi. Mae set o glychau llaw efydd yn costio £1300, a rhaid cael blychau arbennig wedi eu leinio â melfed i'w cario. Yn ogystal, rhaid gwisgo menyg i ganu'r clychau; gall mymryn o chwys o'r dwylo effeithio ar donyddiaeth y gloch.

Gobeithia Linda Griffith ddysgu'r grefft i rai o'i disgyblion ieuengach, fel bo dau dîm o glychwyr ar gael y flwyddyn nesaf.

Bydd yr ail dîm hwn wedi dechrau ar eu hymarferion cyntaf erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' eich cyrraedd, a gobeithiwn roi mwy o'u hanes yn ein rhifynnau nesaf.

Bwriada'r grwpiau berfformio mewn gwahanol ganolfannau dros y misoedd nesaf er mwyn codi arian i wahanol elusennau.



*Yn y llun gwelir rhai o aelodau'r ddau dîm yn ymarfer. Ar nos Lun, Rhagfyr 17, fe'u recordiwyd ar gyfer y rhaglen 'Gwneud Sens o'r 'Dolig', hanes cymeriad sy'n chwilio am yr Ŵy Aur. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar bnawn Dydd Nadolig.*

# NADOLIG '90

**Pa beth Nadolig yma,**
**Fy annwyl Santa Clos,**
**Sydd yn y sach i'w rannu**
**Yn dawel bach trwy'r nos?**
**'Mae mil o drugareddau,**
**Tegannau o bob llun**
**Yn fidios ac yn Durtles**
**A batri i bob un.'**

**Yn Ynys Môn rhaid dechrau,**
**Yn ffermdy R. M. Huws,**
**Rhoi oen bach gwyn a bywiog**
**Mewn corlan ger y Sbriws.**
**Ac os daw grant i'w gynnal**
**A'i gario dros yr aig,**
**Dilosg yw'r crai sydd ynddo**
**Fel coban binc y wraig.**

**Daw Scrabble Saesneg nesa'**
**I Bedwyr ger y Borth.**
**Mae angen K i Brynkir**
**A Kinmel yn y North.**
**Y Z i'r Zebra bychan,**
**A'r J i Jac-y-do,**
**Ac os daw syched arno**
**Rhoi X bach rhwng dau O.**

**Ac yna'n ôl i Arfon**
**A dringo am Lanbêr,**
**Rhoi Lego bach i'r Hogia**
**I lenwi bwlch sy' flêr.**
**Rhaid troi i lawr am Dafydd**
**I'r Llan yn Stiwdio Sain,**
**Un botel fach o'r Deri**
**Y 'Vintage' — chwedeg nain!**

**Daw Dafydd Elis nesa'**
**Ai tybed a fydd gwên?**
**Pan wêl uwch draed y gwely**
**Yn isel, eroplên?**
**Ac yna dros Glawdd Offa**
**Dan ganu ding-a-ling**
**Rhoi polyn Polo i Charlie**
**Llaw chwith, mae'r llall mewn sling!**

**Ac yna i lawr i'r Ddinas**
**A galw yn Nymbar Ten,**
**Ond O! beth a ddigwyddodd?**
**Dim Magi na dim Den.**
**De Cymru a ddaw nesaf**
**Pan ar fy ffordd yn ôl**
**Pêl rygbi wrth y cannoedd**
**A beiros i'r criw dôl.**

**Caf 'sgoi hen dre Caerfyrddin,**
**Dim angen dringo'r tô,**
**Mae pawb i lawr mewn byncar**
**Heb gorn a'r drws ar glo.**
**Fe holais yma hefyd**
**Am Alan yr A.S.**
**Ond na oedd ateb plantos**
**Ac UN ddywedodd Yes!**

**Un ddol Gymreig sydd weddill**
**Fe gollais label hon,**
**Ai Meinir neu Angharad?**
**Does arni ond Hong Kong.**
**A chwithau geirw ffyddlon**
**Redundant wedi'r strach**
**I'r lladd-dy yn Llanelli**
**Yn burgers i blant bach.**

**Af innau fel fy arfer**
**At Mari fach am sbel.**
**Caf groeso yn y Groto**
**Fe gedwais Ambarel!**
**Ac os bydd angen Santa**
**Yn nawdeg un pan ddaw**
**Wel cofiwch ffonio yma —**
**North pôl tri chwech saith naw!**

**Huw Thomas, Gwenallt, Llanrug**

## CLWB FFRINDIA SOBIN

*Mae 'na nifer fawr wedi bod yn 'sgwennu yn holi am Sobin ac yn arbennig os oedd Clwb o ryw fath yn bodoli.*

*Wel, toedd 'na ddim, ac yn amlwg roedd 'na ofyn — felly dyma benderfynu dechrau Clwb arbennig. Felly dyma ddatgan yn swyddogol fod CLWB FFRINDIA SOBIN wedi dechrau.*

*Y cwbl sydd raid i chi wneud i ymuno yw anfon £2 o dâl aelodaeth i: **Siân Eleri, Canolfan SAIN, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd LL57 2AP.***

*Byddwch yn derbyn Cerdyn a Bathodyn Aelodaeth yn ogystal â llun o Bryn Fôn.*

*Manteision bod yn aelod o'r Clwb yw: bob tri mis fe fyddwch yn derbyn 'Sobor' — taflen gwybodaeth swyddogol am SOBIN trwy'r post am 30c (50c mewn siopau), ac fe gewch ostyngiad ym mhrisiau casetiau a chynnyrch amrywiol SOBIN A'R SMAELIAID.*


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

**GWYNETH ROBERTS**
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**


PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

**Gwesty**
**Dolbadarn**
**LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.**

# DAN FLEW EIN LLYGAID

## hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

*Gardd Eden*
*Bro'r Eco*
*Cymru Ein Gwlad*
*Dydd Nadolig 1990*

*Annwyl Ots,*

*Digwydd symud ar ddwy droed roeddwn i, â'm bryd ar gerdded rhan o lôn gul sydd yn arwain maes o law i berfedd gwlad. Dyma'r dwthwn y trôdd fy ngHariad tuag at fy ngwlad yn atgasedd rhonc.*

*Prin ddeng munud o waith cerdded, a minnau cyn hapused â'r gog, er yr holl oerni o'm deutu. Ac yna fferru a wnes i. Teimlo'r oerni ar fy ochr aswy, meddech? Nage'n wir. Cywilyddio? Gresynu?*

*Yr oeddwn yn mynd linc-di-lonc tan hynny, ond dyna ddechrau arafu fy nghamrau ac oedi. Yr hyn oedd yn gyfrifol am yr oediad oedd fy mod wedi dechrau cyfri tuniau gweigion a luchiwyd ar ochr y lôn; tuniau rhydlyd a'r paent masnachol yn dangos yn yr amlwg i ba gwmniau y perthynai'r cyrff metalig yn y ffos ac ar erchwyn y ffordd fawr.*

*Y rhain a fu'n rhan mor hollbwysig yn y broses o fasnacheiddio; y rhain a ddenodd pobl a phlant i'w meddiannu, a chael gwared ohonynt.*

*Dyma'r llygredd a etifeddwyd. Pydredd. Malltod. A'r cyfan yn dadfeilio gerbron fy nwy lygad syn. Paent, a thun wedi colli'i urddas; cemegau yn gymysg â gronynnau o bridd; un tun yn ormod, wedi'i daflu o gil ffenast modur.*

*Deng munud o waith cerdded ac mi oeddwn i wedi cyfri dros ddeg ar hugain o duniau gweigion ar un ochr i'r lôn. Dyna ddechrau clandro symiau. Pwt o lôn. A phetae rhywun yn gosod bob tun ochr yn ochr, sawl cilomedr fyddai yn y fantol?*

*'Y chwydfa glai', chwedl Bardd yr Haf. Yma'r chwydfa duniau gweigion, yn rhan o'r hyn a etifeddwyd yn ein gwlad. Hyn i gyd yn ysglyfaeth i'r haul a'r gwynt ac o ddipyn i beth yn toddi ac yn dod yn fater marwol yn y pridd, a'r pridd hwnnw yn ei dro yn cynhyrchu planhigion a chreaduriaid, gan gynnwys plant a phobl yn eu bwyta, a'r difwyno yn dod yn rhan o'r bwrlwm gwaed yng ngwythiennau'r diniwed o blant dynion. Nid heddiw sy'n dioddef, ond yfory, a phlant ein plant.*

*Bydded y llythyr hwn yn rhybudd i bawb a phopeth. Boed inni fod ar ein gwyliadwriaeth rhag troi'n cilcyn daear yn ddymp. Boed inni frwydro yn ein cymdeithas er mwyn tegwch i eraill ac ar yr un gwynt ofalu am lendid heddiw fel y bo yno at ddefnydd plant a phobl y dyfodol.*

*Nid gofyn yr wyf am i'r cwmniau masnachol ddarparu cyfundrefn a fyddai'n gofalu bod yr holl duniau yn cael eu dychwelyd, a'u hailbrosesu. Na, mae'r cwmniau eisoes wedi dangos mai mewn elwa mae eu diddordeb pennaf.*

*Nid gofyn yr ydwyf ar i'r Llywodraeth ganolog yn Lloegr ddarparu mwy o ddeunydd-hysbysu pobl rhag difwyno eu hamgylchfyd.*



*Na, mae'r llywodraeth unbenaethol honno â'i diddordeb ynddi'i hunan ac nid yn lles pobl eraill, hyd yn oed, genhedloedd eraill sy'n rhan o'i threfn a'i chyfraith.*

*Yn hytrach, gofynnaf arnoch chwi ddod yn rhan o'r frwydr i wyrdroi'r sefyllfa fregus sy' ohoni, pryd y gwelir ochrau ein lonydd a'n caeau wedi'u brechu â thuniau gweigion.*

*Mae'n bosib concro'r haint. Heddiw, awn ati. Cyd-weithiwn. Cyd-ddeisyfwn. Mewn undeb mae nerth. Digwyddodd yr halogi. Rhy hwyr edifarhau yfory, neu dranoeth. Amser a ddengys pwy sy'n mynd i drechu. Tybed yn wir, y gwireddir yr ymadrodd 'Trech gwlad nac Arglwydd'? Tybed, tybed?*

*Credaf fod ynom y rhuddin a'r nerth i ennill y frwydr fwyaf eto yn hanes y ddynoliaeth. Credaf yn ddilys fod dydd newydd ar wawrio, a phobl wedi dod at ei gilydd ac yn sylweddoli ei fod yn reidrwydd arnynt gerdded pytiau o lonydd eu gwlad, a glanhau'r budreddi sydd yno yn brigo i'r golwg.*

*Y mae'r frwydr yn bodoli. Fe ellir ei hennill,*

***LLYGAD FACH GRAFF***



# Agor Ffiniau'r Gorffennol

**Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.**

## YN 90 OED YN 1937

(Nis gwn pwy a 'sgrifennodd yr hanes yn y papur newydd)



Darlun yw hwn o Mrs Ann Roberts (Pandy gynt), Awelon, Llanrug, (gallaf ei chofio yn iawn), sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed.

Ganwyd Mrs Roberts ym mhlwyf Llantrisant, Môn, yn y flwyddyn 1848 ac yno y trigodd am 35 mlynedd cyntaf ei hoes; wedyn daeth drosodd i Lanrug lle yr ymbriododd â'i diweddar briod Mr Evan Roberts, Bryn Moelyn, Llanrug, un o hen deuluoedd adnabyddus y cylch.

Gweithiodd yn galed ar hyd ei hoes, yn enwedig yn y rhan gyntaf o'i hoes fel morwyn fferm yn Sir Fôn. Codai tua pump o'r gloch yn y bore, yr adeg hynny, a phriodola ei hirhoedledd i weithio yn galed a bwyta bwyd hen ffasiwn fyddai i'w gael yr adeg hynny i forynion ffermydd.

Bu'n ffyddlon gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ar hyd ei hoes ac yn selog yn yr Ysgol Sul. Mae yn cofio yr amser yn dda pryd y byddai y Beibl yn cael lle mawr ar yr aelwyd a'r ddyletswydd deuluaidd mewn bri. Mae yn hynod gyfarwydd yn yr Ysgrythur er heb fod yn alluog i ddarllen ers llawer dydd ar gyfrif ei golwg.

Mae ganddi feddwl mawr o hen bethau a hen arferion y dyddiau gynt; er hynny mae yn barod i groesawu bob dyfais newydd o werth. Caiff fwynhad mawr o wrando pregethau Cymraeg ar y radio.

Daeth i fyw at ei merch a'i phriod yn ei blynyddoedd olaf i 'Awelon', Llanrug, sef Bessie a Glan Caledffrwd.

Dyma hi'n fawr ei bri —
Deg a phedwar ugain!
Siŵr o'i throed fel erioed
Gwên fel gwawr y Dwyrain.

Praff ei bôn, hen gyff Môn,
Lle mae sôn am gewri:
Gwych ei chwaeth, hi a ddaeth
I gael maeth Eryri.

Beunydd dug i Lanrug
Fel lliw grug y bronnydd,
Enw da a barha —
'Llannerch iacha'r gwledydd.'

Dwed ei hun yn ei llun —
'Af yn hŷn, rwy'n gwybod';
Medd y plant 'ewch yn gant
Cyn cloi'r drws diddatod.

*J. R. Morris, Bethel*

Yn ddeg a phedwar ugain
Mae'n troedio llawr y tŷ,
Os ydyw ei golygon
Yn wannach nag y bu,
Mae'i llais fel cynt heb fynd ar ffo,
A'r Hen Ysgrythur ar ei cho'.

Pregethau ar y radio
I'w henaid rydd fwynhad,
A chanu mawl i'w chalon
Yn rhyfedd esmwythâd,
A diolch byth a chalon lân
Am yr Efengyl wrth y tân.

Yn ddeg a phedwar ugain
Mae bywyd iddi'n wledd,
Ni thaflwyd arni eto
Gysgodion croes a bedd;
Fel un sy'n caru pethau Sant
Mae gobaith iddi weld ei chant.

*T. A. Williams, Garreg Fawr, Waunfawr*

Yn 1936 collodd ei merch Bessie a'i phriod Glan Caledffrwd, blentyn bach ac fel hyn y gwnaeth fy nhad englyn er cof amdano.

**Er Cof am Dewi Wyn**

Nac wylwn am gu eilun — oherwydd
Mae'n seraph bach claerwyn;
O'i aelwyd at ei delyn
Duw a aeth a'ch Dewi Wyn.

*Glan Rhyddallt*

**Dymuniad y Bardd**

Bwyd llefrith, a byd llyfrau — a hwyr gân
A'r gwynt yn y Deau;
Parlwr mwyth, a choed ffrwythau
Byw'n rhydd fel hydd i'w mwynhau.

*Glan Rhyddallt*


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**J.R. PRITCHARD**

**BONTNEWYDD**

**Ffôn:**

**Caernarfon 3507**

Gwneuthurwyr

Ffenestri a Drysiau



CYFARCHION NADOLIG

LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Caernarfon 76285 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

TONY, BERYL a STAFF

Tafarn

PENBONT

LLANRUG

Fe rown ichi ein croeso arferol trwy gydol y flwyddyn newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

HEN YSGOL GLANMOELYN

LLANRUG

Ffôn: 77482

Gwneuthurwyr ffenestri, dysau, unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH BAWB YN

Y CO-OP LLANRUG

COFIWCH FOD DIFIDEND O 3c YN Y BUNT I AELODAU'R GYMDEITHAS

Ffôn: CAERNARFON 2937

I gael bargeinion drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol – y siop yr ydych chi'n berchen arni.

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1990
DYMUNIADAU GORAU AM 1991

**DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN AM EICH CEFNOGAETH FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN A DYMUNWN FEL TEULU NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD**

## SIOP a MODURDY
## GROESLON MARC
## LLANRUG
**Ffôn: Caernarfon 672445**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**Elaine, Wendy, Vera, Lynette, Sarah a Debbie**

## Elaine's
## LLANRUG, Ffôn: 2023

| ORIAU AGOR | | |
|---|---|---|
| Mawrth | 9 - 7.30 | Dydd Mawrth i bensiynwyr |
| Mercher | 9- 5.30 | Nos Fawrth i ddynion |
| Iau | 9 - 8 | |
| Gwener | 9 - 8 | Colurio ar gyfer achlysuron arbennig |
| Sadwrn | 7.30 - 2 | |

---

*CYFARCHION Y TYMOR*
*A DYMUNIADAU GORAU*
*oddi wrth*
**NEIL A STAFF**

## y Siop Sglodion
## Pontrhythallt
## Llanrug

**SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !**

---

## J.H. a H. JORDAN & SON
## SNOWDON GARAGE
## LLANRUG
Ffôn: CAERNARFON 3056

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth bawb yn y garej.
Gobeithio y cawn eich cefnogaeth eto yn y Flwyddyn Newydd

**Gwerthu ceir newydd ac ail-law**
**Trin cyrff - Sythu Chasis - Spreio - Unrhyw Waith Mecanyddol - Atgyweirio - MOT - Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr**

---

CARTREF PRESWYL
## LLYS EIDDON
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
## JONES A PITTS
**PEIRIANWYR MECANYDDOL**
Arbenigwyr mewn pob math o waith metel
## GWAITH BRYN AFON
## LLANRUG

---

**Simneau glân am bris rhesymol gan**
## G. LLOYD
**4 PLAS TIRION TERRACE**
**LLANRUG**
Cyfarchion y tymor i chwi oll

*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

*Ffôn: Caernarfon 4781*

---

CYFARCHION Y TYMOR oddi wrth
## GLYN ROBERTS A'I FAB
**DYNION GLO**
3 a 4 Tai Hermon, LLANRUG
Ffôn: 5043 a 2125
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus i bawb oddi wrth
## ELWYN HUGHES
**CONTRACTOR**
## PENNANT
## LLANRUG
**Ffôn: CAERNARFON 2156**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**Ashley a Carolyn Wager**
A STAFF
**SIOP Y BONT**
**(SNOWDON STORES)**
**Pontrhythallt**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**Caernarfon 4472**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth
**BERYL A GWENDA**
**LLYTHYRDY**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2422**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
# SELWYN MORRIS
**Adeiladwr a Threfnydd Angladdau**
# LLANRUG
**Ffôn: Caernarfon 2841**

---

DYMUNA
**GWYNFA A MARGARET**
# PRITCHARD
**GWERTHWYR LLEFRITH**
**CEFN LLWYD**
**LLANRUG**
**Ffôn 872263**
**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**Rob a Claire a staff**
**Y GLYNTWROG**
**LLANRUG**
Diolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn


---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
# LINDA
**Ffôn: Caernarfon**
**3674**
TRIN GWALLT YN EICH PENTREF
Ffoniwch i drefnu amser

---

## NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH
## John, Sandra ac Ian Trevor a holl staff

**Dewch i weld y**
***PEUGEOT 405***
**a'ch gwynt yn eich dwrn!**




# GAREJ HAFOD LLANRUG
**Ffôn: Caernarfon 673372**

# CYFARCHION LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**CRIB COCH**

**Y Sgwâr, Llanrug**
**Ffôn: Caernarfon 76772**

Trin gwallt i bawb o'r teulu gan Jen

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

***W.J.GRIFFITH***

**PLYMAR A GOSODWR**
**GWRES CANOLOG**
**PANT TIRION, LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3248**

**Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi**

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

---

**Y Nadolig Hwn defnyddiwch**

## CABS LLANRUG




C'FON 5951

**Prisiau cystadleuol**
**Gwaith contract**
**pell ac agos**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Richard a Meirwen Williams a staff**

## Y STORFA LLANRUG

**Ffôn: Caernarfon 2790**

Diolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Danfonir eich neges am ddim at eich drws (ardal Llanrug): Ffrwythau, Llysiau, Blodau, Nwyddau ac ati

**Oriau Agor tan ar ôl y Nadolig**

| | |
|---|---|
| Sul | 9 - 12.30 |
| Llun - Gwener | 7.30 am - 8 pm |
| Sadwrn | 8 am - 5 pm |

---

**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**
**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**
**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**

## E. PUGH

**WELDING & FABRICATING**

32 GLANFFYNNON
**LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 5394

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

---

Dysgwch yrru'r car gydag

## Y.Y.O.

**YSGOL YRRU OFALUS**

* **Gwasanaeth 7 diwnod**
* **O dd ws i ddrws**
* **Control Deuol**

**D L**

**PRITCHARD**
**43 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDDS DDA ODDI WRTH BAWB YNG
**NGHARTREF HENOED**

## Foelas

**FFORDD YR ORSAF**
**LLANRUG Ffôn: C'fon 4652**

---

## CHIROPODIST

**Gwasanaeth yn eich Cartref**

**E. Ll. Parry**

**M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.**
**57 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**Caernarfon 5754**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

---

## EMYR JONES

**PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI**
**Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau**
**44 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**Caernarfon. 3513**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff




## BYSIAU ARFON

**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: Caernarfon 5175 77858**

# LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Fercher, Tachwedd 28, gyda Mrs Myfi Roberts yn llywyddu.

Cafwyd noson o 'Hawl i Holi' gyda Mr Iolo H. Roberts yn Gadeirydd, a'r panelwyr oedd Mrs Bethanne Williams, Mrs Anwen Owen, Mr Phil Griffiths, Llanrug, a Dr W. G. Lewis, Caernarfon.

Diolchwyd gan Mrs N. Lovatt. Paratowyd paned gan Mrs W. O. Roberts, Mrs Beryl Thomas a Mrs Joan Griffiths a diolchwyd iddynt gan Mr Alf Parry.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Capel Mawr nos Fercher Rhagfyr 12. Llywydd y noson oedd Mrs W. O. Roberts. Y Gŵr gwadd oedd Mr Bobby Haines, Caernarfon, ac aeth â ni ar daith drwy gyfrwng sleidiau i Seland Newydd. Diolchwyd iddo gan Mr Oswald Davies.

Paratowyd paned gan Mrs A. Parry, Mrs I Butler, Mrs C. Roberts, Mrs E. Ellis Owen, Mrs M. Williams, a diolchwyd iddynt gan Miss M. G. Roberts.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, Rhagfyr 4, cafwyd 'Noson o Gân' gan barti Glannau Menai dan arweiniad Rhianwen Roberts, gyda Maimie Noel yn cyfeilio. Cafwyd eitemau o ganu unigol, deuawd, adroddiadau a sgets yn cael eu cyflwyno gan Mrs Betty Pierce Jones. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Williams, Bod Fair, a thalwyd diolch i'r parti gan Mr Myrfyn Jones.

ADFERIAD IECHYD: Dymunir gwellhad buan i'r canlynol — Mr J. Maxwell, Noddfa; Mr Bobby Jones, Parc Isaf; Mr Emyr Owen, 8A Bro Rhyddallt, sydd bellach gartref ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn ar ôl cyfnod mewn ysbyty yn Lerpwl, a Mr Robin Parry, 12 Bro Rhyddallt.

GWELLA: Rydym yn falch o weld Hawys Roberts, Melin Crawia, adref wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen. Brysia wella yn llwyr, Hawys.

CYFARCHION NADOLIG: Dymuna Mrs Margaret Evans, Llys Eiddon (Lloc, Glanffynnon, gynt) anfon cyfarchion y tymor i bawb o'i chyfeillion yn ardal 'Eco'r Wyddfa'.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, ar farwolaeth ei brawd yn Seland Newydd.

DIOLCH i bawb a gefnogodd Ffair nadolig Cyfeillion Ysgol Brynrefail ac yn arbennig felly i'r rhieni fu'n casglu nwyddau mewn gwahanol rannau o'r pentref.

PLAID CYMRU: Dymuna pwyllgor y gangen ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth i sicrhau llwyddiant i'r Ffair Nadolig gynhaliwyd ar Ragfyr 5 yn yr Ysgol Gynradd.

Roeddem yn siomedig na fedrai'r wraig wâdd, Mrs J. Huws-Roberts, Park Villa, fod yn bresennol ac yn ddiolchgar iddi am ei rhodd at y ffair.

Diolch i'r rhai fu'n paratoi bwydydd a chacennau i'r stondinau, a gyfrannodd arian, nwyddau ac anrhegion ar gyfer y raffl ac yn arbennig i ferched y gegin a gofalwraig yr ysgol am eu help parod a siriol.

Roedd Siôn Corn wedi mwynhau ei hun yn fawr gyda phlant bach da Llanrug ac yn edrych ymlaen at eu gweld ar noswyl Nadolig. Diolch i chi am alw heibio Siôn Corn.

Enillwyr y raffl oedd — 1, Basged hardd o flodau sych: Mrs Thwaite, Llanrug (rhodd Mr a Mrs Alwyn Jones, Racca, Penisarwaun); 2, Haearn Smwddio: Eled Roberts; 3, Siocled (Black Magic): Eirlys Williams, Y Berllan; 4, Turtle: Iwan Roberts, Talybont; 5, Siocled: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar.

Cystadleuaeth enwi'r ddol: Meilir Jones; pwysau'r gacen: Mrs Avril Jones, Minffordd.

Byddwn yn cael sgwrs ar Arlunio gan Frank Green, Pontrug ar nos Fercher, Chwefror 20 yn y Sefydliad Coffa. Sylwch mai Chwefror 20 yw'r dyddiad ac nid Chwefror 19 fel sydd ar y rhaglen. Edrychwn ymlaen at weld aelodau a chyfeillion yno ar Chwefror 20.

**Clwb Karate Llanrug**

Mae'r Clwb bellach yn cynnal eu cyfarfodydd yn y Brif Neuadd, Ysgol Brynrefail. Byddant yn cyfarfod bob nos Fawrth — plant dan 14 oed am 6.30. Oedolion am 7.30.

Os am fwy o fanylion neu ddiddordeb mewn ymuno, yna ffoniwch Caernarfon 77219.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



oddi wrth

**Wavell Roberts**

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3574**

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

# NEWYDDION O'R YSGOL GYNRADD

Bu amryw o blant ar ymweliadau y mis yma. Fel rhan o'u gwaith ar dân, treuliodd Safon 1 amser difyr yn gwylio dynion tân Gorsaf Caernarfon wrth eu gwaith. Cafodd y plant gyfle i weld, holi a chynorthwyo y dynion tân.

Bu plant Safon 2 a 4 mewn Gweithdy Hanes yng Nghastell Caernarfon ar Ragfyr 11. Trefnwyd yr achlysur ar y cyd gan Cadw a'r Coleg Normal, a chafodd y plant gyfle i brofi bywyd mewn llys marchog 700 mlynedd yn ôl.

Bu plant y Dosbarth Derbyn yn brysur y tymor yma yn edrych ar Liwiau. I gwblhau eu gwaith aethant i weld ffenestri lliw Eglwys Sant Mihangel. Cawsant amser difyr hefyd yn gwylio a chynorthwyo Jill Brown i wneud melysion lliwgar.

Fel rhan o ymgyrch harddu'r fro cynorthwyodd rai o blant Safon 4 i blannu coed o amgylch y pentref.

**Pêl-droed:** Chwaraewyd yn erbyn Ysgol Dolbadarn, Llanberis a chafwyd canlyniad cyfartal 3-3 wedi gêm galed. Y sgorwyr oedd Dyfan Williams, Daniel Parry a Meilyr Jones.

Colli fu'r hanes yn Ysgol Maesincla gyda'r sgôr 4-0, ond cafwyd perfformiad canmoladwy iawn yn yr ail-hanner ar ôl bod dair gôl ar ei hôl hi ar yr egwyl.

**Pêl-rwyd:** Colli oedd hanes y tîm yn erbyn Ysgol Dolbadarn o 14-11. Yr un fu'r hanes yn erbyn Ysgol Maesincla, er i'r gêm honno fod yn hynod o gyfartal tan y ddau funud olaf. Y sgôr oedd 17-15.

**Nofio:** Braf yw cael llongyfarch y ddau dîm cyfnewid dan 10 oed. Daethant yn drydydd yng nghystadleuaeth nofio yr Urdd yn Llanelli. Llongyfarchiadau hefyd i Eifion Pitchard Jones am ddod yn drydydd am nofio ar ei gefn.



*Eifion Pritchard Jones ddaeth yn 3ydd am nofio ar ei gefn yng Nghystadleuaeth Nofio yr Urdd yn Llanelli.*

**Yr Urdd:** Dathlwyd diwedd y tymor gyda Disgo Dei a chystadleuaeth Hetiau Doniol. Cafodd Dei gryn drafferth i feirniadu yr amrywiaeth o hetiau. Roedd ôl gwaith a dychymyg ar bob un ohonynt.

Ffarweliwn â Miss Nerys Jones, Mrs John Puw a Mr Dafydd Owen o'r Coleg Normal a diolchwn iddynt am eu gwaith a dymunwn y gorau i'r tri ohonynt.

Rydym hefyd wedi ffarwelio dros dro â Miss Amranwen Lynch a chroesawn yn ôl atom Mrs Mair Parry o Garndolbenmaen, i Safon 3 y tro yma.



*Gwenno Williams, Lisa Schudlak, Ceri Jones a Siân Green, y tîm cyfnewid Cymysg a Rhydd a ddaeth yn 3ydd yn Llanelli.*



*Rhai o blant y Babanod Canol ac Uchaf yn modelu hetiau a phenwisgoedd wedi eu gwneud gan Mrs Megan Williams, Trefor, a ddaeth i'r ysgol yn ddiweddar i sgwrsio â'r plant.*

# DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

EISTEDDFOD BENTREF: Eisteddfod i'w chofio os bu un erioed. Dyna yn sicr oedd ymateb pawb a fu mor ffodus a mynychu'r Eisteddfod yn y Ganolfan leol ar nos Fercher, Rhagfyr 5. Yn wir, llwyddiant yr Eisteddfod sydd wedi bod yn destun sgwrs llawer un yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf.

Roedd y Ganolfan yn llawn a mwynhad pur oedd gwrando a gwylio yr holl hwyl oedd yn dod o gyfeiriad y llwyfan. Beth am yr uchafbwyntiau? Wel, roedd cymaint ohonynt gan i bawb gyfrannu mor ardderchog i'r noson.

Eto, os oes rhaid dewis, yna cofir am y cystadleuwyr ifanc fel Awen, Heledd a Ynyr a roddodd gychwyn mor ardderchog i'r noson. Yna llwyddiant Elfed Morgan Morris mewn sawl cystadleuaeth a chyfraniad Delyth Ann Price yn y gystadleuaeth Unawd o dan 18 oed.

Yna, beth am y cystadleuwyr hŷn? Eto, sawl un wedi bwrw i mewn yn llawn i hwyl y noson a rhoi cymaint o fwynhad i bawb. Pwy all anghofio dawn actio Derek a Rennell Williams a pherfformiad bythgofiadwy Wili Bach.

Eto eleni, roedd cyfraniad Miss E. Wyn Jones i sawl cystadleuaeth yn amlwg heb anghofio am lwyddiant ysgubol Mrs Alice Griffith unwaith yn rhagor yn y cystadlaethau llenyddol. Tra yn sôn am yr adran lenyddol, dyna ddetholiad o waith yr enillwyr:

**Llinell Goll**

Tri pheth sy'n anodd i mi
Gwrthod treiffl yn y parti
Codi'n gynnar yn y gwyliau
**Addef fod i minnau feiau.**

(Enillydd: Miss E. Wyn Jones)

**Gorffen Limrig**

I'r Costa Del Sol yr aeth Ronnie
I chwilio am haul a'i fodloni
**Disco a nofio**
**Dawnsio'r Flamenco**
**Daeth nôl fel dyn newydd at Nancy**

(Enillydd: Alice M. Griffith)

**Brawddeg gyda phob gair yn dechrau gyda llythyren 'D'.**

Daliodd Dafydd Disgwylfa dwrch daear dan domen dail Dic, Drws Deucoed, dywedodd Dafydd: 'Dyma'r diafol duriodd drwy dir da.'

(Enillydd: Gwen Griffith)

Diolch i'r beirniaid oll: Y Prifardd Ieuan Wyn (Llenyddiaeth); Siân Gibson (Cerdd); Iola Gruffydd (Adrodd); John Thomas (Adran y Plant/Celf a Chrefft); Eurwen Roberts (Coginio); i Annette a Olwen am gyfeilio ac i Rennell Williams am arwain y noson. I Sara am gofnodi enwau yr holl enillwyr, ac i John a Robin am werthu'r rhaglenni wrth y drws. I'r merched oll a fu'n gyfrifol am y lluniaeth ac i Staff Ysgol Gwaun Gynfi am sicrhau bod y plant yn cael cyfle i gystadlu yn y cystadleuthau Adran y Plant. Diolch i Dafydd Wyn Evans am y siocled ac i Mrs Eurwen Roberts am ei rhodd ariannol i'r Eisteddfod. Dyma restr llawn o'r canlyniadau:

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN**

**Unawd dan 5:** 1, Awen Griffith a Heledd Parri; 2, Ynyr Parri. **Unawd 5-9:** 1, Jenny Lyn a Elfed Morgan Morris; 2, Trystan Ellis; 3, Helen Jane Corless a Ffion Haf. **Unawd dan 12:** 1, Elfed M. Morris a Lyndsey Vaughan Parry; 2, Alaw Mari Hughes; 3, Jennifer Ann Corless; 4, Sian Wyn Evans. **Unawd dan 18:** 1, Delyth Ann Price.

**Adrodd dan 5:** 1, Awen Griffith a Heledd Parri. **Adrodd 5-9:** 1, Elfed M. Morris a Trystan Ellis; 2, Jenny Lyn; 3, Bethan Wyn a Ffion Haf. **Dan 12:** 1, Sian Wyn Evans; 2, Alaw Mari Hughes a Elfed M. Morris; 3, Lyndsey V. Parry. **OEDOLION — Deuawd, Emyn:** 1, Marina Jones ac Annette Bryn Parri; 2, Sara Wood a Delyth Ann Price; 3 (cyd): Betty Roberts a Olwen Roberts; Ifan Roberts a Eifion Griffith; 4, Jennifer Corless a Sian Wyn Evans. **Unawd, Emyn:** 1, Ifan Roberts; 2, Betty Roberts. **Parti Canu:** 1, Parti Cymysg; 2, Parti Ysgol Sul Sardis; 3, Parti Merched/Dynion; Gwobr arbennig i Barti'r Adar. **Canu fel plentyn dan 5 oed:** 1, Annette Bryn Parri; 2, Derek a Rennell Williams; 3, Parti Brain; 4, Olwen Roberts a Betty Roberts. **Adrodd fel plentyn dan 5 oed:** 1, Rennell Williams; 2, Betty Roberts. **Sgets i barhau at 2 funud:** 1, Daniel, Hanna a Betty.

**LLENYDDIAETH**

**Gorffen Limrig:** 1, Alice M. Griffith; 2 a 3, E. Wyn Jones; 4, Robert S. Evans. **Llinell Goll:** 1, E. Wyn Jones; 2, Alice M. Griffith; 3, Margaret C. Griffith; 4, Eifion Griffiths. **Brawddeg gyda phob gair yn dechrau gyda'r llythyren 'D':** 1, Gwen Griffith; 2, E. Wyn Jones; 3, John Griffith; 4, Alice M. Griffith. **Anfon llythyr un tudalen at Saddam Hussein:** 1, Alice M. Griffith; 2, Bob Williams. **Llunio gweddi gyfoes i'w darllen ar fore Nadolig:** 1, Alice M. Griffith. **Tri phennill (4 llinell yr un) am unrhyw ddigwyddiad digri yn yr ardal:** 1, Alice M. Griffith; 2, Hugh Jones; 3, Gwen Griffith; 4, E. Wyn Jones.

**COGINIO**

**Cacennau 'Sponge' bach:** 1, Gwen Griffith; 2, G. Rowlands. **Cacennau bach gan ddefnyddio siocled:** 1, Elfed Morgan Morris; 2, Ann Dearn; 3, Sarah Anderson a Sian Wyn Evans. **Bisgedi addas ar gyfer Parti Penblwydd:** 1, Sian Griffith; 2, Sarah Anderson a Rita Wood. **Dynion yn unig — Arddangos plât o salad neu frechdanau:** 1, Andrew Griffith.

**ARLUNIO**

**Dan 5:** 1, Awen Parry Griffith; 2, Aneurin Williams; 3, Llion Hughes a Mathew Barlow. **Dan 7:** 1, Rhodri Glyn; 2, Sara Barlow; 3, Rhian E. Owen. **Dan 9:** 1, Christy Boothroyd; 2, Rebecca J. Halliday; 3, Gethin Williams; 4, Helen Jane Corless a Lowri Morris. **Dan 11:** 1, Sian Wyn Evans; 2, Shaun Thomas; 3, Christopher Thomas a Euron Thomas Jones. **Dan 14:** 1, Jennifer Ann Corless; 2, Eleri Wyn Evans; 3, Sian Wyn Evans.

**CELF A CHREFFT**

**Golygfa Nadolig i addurno Eglwys, Capel neu Gartref:** 1, Plant Ysgol Sul Sardis; 2, Megan Morris; 3, G. Rowlands. **Pypedau bys neu llaw a fyddai yn ddelfrydol i blant adeg y Nadolig:** 1, Eleri Wyn Evans; 2, Sian Wyn Evans. **Addurniadau ar gyfer Coeden Nadolig:** 1, Megan Morris; 2, G. Rowlands.

EGLWYS ST. MAIR: Cynhelir Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar fore Nadolig am 10.00 yn Eglwys St Mair a hynny dan ofal y Parchedig Ganon R. Glyndwr Williams. Yn y gwasanaeth hwn gobeithir cysegru Llyfrau Emynau newydd er cof am y diweddar Mr Hugh Thomas. Fel arfer mae croeso i aelodau enwadau eraill i ymuno yn y gwasanaeth hwn ar fore Nadolig.

CYMDEITHAS UNDEBOL: Sicrhawyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni Annette Bryn Parri mewn cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Iau, Tachwedd 29. Bu iddi olrhain hanes ei gyrfa hyd yma yn ogystal â chwarae tapiau o'r gwahanol artistiaid y bu hi yn gysylltiedig â hwy dros y blynyddoedd.

Noson ddifyr a phleserus iawn. Llywydd y noson oedd Miss Ellen Wyn Jones. Yn y flwyddyn newydd sef ar nos Iau, Ionawr 10, bydd y Gymdeithas yn cynnal Cyfarfod Gweddi yn y Ganolfan a bydd y trefniadau yng ngofal aelodau Capel Sardis.

LLWYDDIANT: Balch ydym fel pentref o ddeall am lwyddiant Anwen B. Jones, 4 Bro Elidir yn yr arholiad 'City & Guilds' mewn Peirianneg yn ddiweddar. Deallwn iddi gyrraedd safon uchel a chael chlod o'r mwyaf am ei gwaith. Ymddengys mai hi yw y ferch gyntaf o'r ardal i dderbyn anrhydedd o'r fath. Mae Anwen yn cael ei chyflogi gan gwmni D.M.M. Llanberis.



S4C: Cofiwch wylio dau o bobl ifanc y pentref ar eich teledu dros y Nadolig. Deallwn y bydd Sara a Daniel Wood, Fron Heulog, yn ymddangos ar raglen o'r enw 'Tri, Dau, Un' sef y cynhyrchiad llwyddiannus hwnnw o dan gyfarwyddyd Cefin Roberts a berfformiwyd am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon, eleni. Bydd y rhaglen ymlaen ar Ragfyr 27 am 4.30. Felly cofiwch wylio!

PWYLLGOR ADLONIANT DINORWIG: Cyfarfu Pwyllgor Adloniant Dinorwig yn y Ganolfan ar nos Lun, Rhagfyr 10 a chytunwyd i gyfrannu yn ariannol at yr achosion canlynol. Bydd y cyfraniad cyntaf yn mynd tuag at dalu costau plant y pentref i fynychu'r pantomeim 'Twm Siôn Cati' yn Theatr Gwynedd ar ôl y Nadolig. Hefyd cyfraniad o £25 tuag at Glwb Gwerin y Coed. Yn ogystal â hyn cytunwyd i dalu cost llogi bws i fynd a phawb o bob oed am drip blynyddol yn ystod yr haf. Gobeithir datgelu mwy o fanylion am hyn yn ystod y misoedd nesaf. Pwrpas hyn i gyd yw rhoi elw ariannol gweithgareddau fel hwyl Haf yn ôl i'r gymuned leol.

CYFARFOD YN Y PRYNHAWN: Am ba reswm bynnag, nid oes unhyw Gymdeithas o'r pentref yn cyfarfod yn ystod y dydd, dyweder yn y prynhawn. Efallai bod rheswm da paham y mae sefyllfa o'r fath yn bodoli ond eto i gyd mae lle i gredu y byddai cynnal cyfarfod cymdeithasol, dyweder unwaith y mis yn y Ganolfan ar gyfer y merched yn ddatblygiad i'w groesawu. Tybed a welwn rhywun yn mentro gwneud rhywbeth o'r fath yn y flwyddyn newydd.


Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 76506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



# O'R 'STEDDFOD . . .




*Cystadleuwyr ifanc gyda'r arweinydd, Glyn Tomos.*



*Parti'r Adar.*

Y TYWYDD DRWG: Yn dilyn y tywydd drwg a gawsom yn ddiweddar mae y Cynghorydd Glyn Tomos wedi anfon llythyr at MANWEB yn gofyn iddynt sicrhau mwy nag un llinell ffôn argyfwng o hyn ymlaen. Amhosibl ar y gorau yw sicrhau bod eich neges yn cyrraedd MANWEB fel mae pethau ar hyn o bryd, gan bod y lein honno mor brysur. Gwyddom am nifer fu yn ceisio ffonio Manweb am ddau ddiwrnod heb lwyddo i fynd trwodd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb! Cofiwch wrando ar gloch y Ganolfan yn cael ei chanu ar noson Flwyddyn Newydd.



*Adroddwyr dan 5 oed?*


**GARTH MAELOG**
**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA


## BRYNREFAIL

**Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580**

CYDYMDEIMLO: Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Mrs E. M. Roberts, Bronallt, yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli brawd, Mr John Owen Jones a drigai yn Lerpwl.

Brodor ydoedd o Garmel, Arfon, ac yno yng Nghapel Pisgah y bu'r gwasanaeth angladdol. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris.

EWYLLYS DA: Trefnwyd casgliad yn ystod yr wythnosau diwethaf dan nawdd cangen leol Sefydliad y Merched tuag at Gyfrifiadur Adran Addysg Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd. Trosglwyddwyd y swm o £52.30 i'r gronfa. Dymunir diolch i'r holl aelodau a'u cyfeillion am eu haelioni.

Yn y casgliad a wneir o Sul i Sul yn flynyddol gan ddosbarth yr oedolion yn Ysgol Sul MC Brynrefail casglwyd y swm o £50. Eleni, fe gyflwynir £25 yr un i Gronfa Alan Pritchard, Nant Peris ac i Gartref Henoed Plas Pengwaith.

Dymuna'r trefnydd Mr John Orwig Jones, Glandwr, ddiolch am y gefnogaeth arferol gan aelodau'r Dosbarth,a charedigion, am eu cyfraniadau.

CINIO NADOLIG: Nos Lun, Rhagfyr 10, mwynhawyd cinio i ddathlu'r Nadolig gan aelodau Sefydliad y Merched lleol yng Ngwesty Ty'n Llan, Llandwrog. Croesawyd pawb i'r achlysur gan y llywydd, Mrs Pat Jones, Cae Coch, a chyflwynodd anrheg Nadolig i bawb o'r gwesteion.

Cafwyd noson arbennig o gynnes a chartrefol, lluniaeth ardderchog a chanu carolau i gloi'r noson. Rhoddwyd gair o ddiolch ar y terfyn am noson bleserus ac i'r ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen am y trefniadau, gan Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r gangen yn y Flwyddyn Newydd — nos Lun, Ionawrb 21.

CYFARCHION: Pleser yw anfon cyfarchion nadolig i'r oll o'r pentrefwyr yn arbennig y rhai mewn Cartrefi Gofal ac eraill sy'n gaeth i'w haelwydydd. Boed i chwi oll dderbyn yn helaeth o fendithion y Nadolig, a phob dymuniad da yn y Flwyddyn Newydd.

PARTI NADOLIG: Cyn i'r nodiadau hyn ddod o'r wasg, hyderwn y bydd Henoed y pentref wedi mwynhau eu Parti Nadolig bnawn Mercher, Rhagfyr 19. Mae ein diolch i Mrs Pat Jones, Cae Coch, am drefnu'r achlysur ac i bawb a gefnogodd noson Parti 'Impressions' nos Fawrth, Tachwedd 27ain i godi arian tuag at y Parti.


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith



**EIRWYN WILLIAMS**
**LLWYNCOED**
**CWM-Y-GLO**
**Ffôn: Llanberis 870563**
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn


## TAN Y COED

**Annwen Parry, Ael y Bryn**
**Ffôn: 870276**

CYDYMDEIMLWN â theulu Mrs Dilys Sharpe, Caernarfon (Tan y Cae, gynt) yn eu profedigaeth o golli eu mam.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Mary Wynne (Gelliod, gynt) ar gyrraedd ei phenblwydd yn 80. Pob bendith iddi.


**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**Gwasanaeth Fideo Proffesiynol**
**JOHN BLIGHT**
**LLANBERIS**
**872209**
Priodasau a phob achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi a Gwasanaeth newid CINE I FIDEO



- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

**PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD**
Nadolig Llawen i bawb
**Perchennog: E.P. Hughes**
**MODURDY DOLYDD**
**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

# ECO'R IFANC

## LLIWIWCH Y LLUN



| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | A | B | A | N | I | O | N | O | J |
| U | W | S | U | E | M | Y | R | R | O |
| G | A | U | R | N | E | W | Y | D | S |
| E | NG | N | A | D | O | L | I | G | E |
| I | Y | A | A | N | RH | E | G | L | FF |
| L | L | O | R | A | C | M | H | B | D |
| I | I | E | S | U | N | S | W | A | L |
| A | O | L | W | E | U | D | T | T | O |
| I | N | O | I | TH | E | O | D | S | T |
| D | W | M | O | R | M | A | I | R | D |

## CORNEL JÔCS

Beth sy'n frown, sy'n stemio ac sy'n teithio ar wely'r môr?
Pwdin 'Dolig tanfor!!

Beth sy'n frown, sy'n stemio ac sy'n gwisgo sbectol haul?
Pwdin 'Dolig ar 'i wyliau!!

Mae'r pwdin 'Dolig yma'n neis ac yn gynnes.
Fe ddylai fod — mae'r gath wedi bod yn eistedd arno!!

Beth sy'n felyn, ac sy'n neidio o gacen 'Dolig i gacen 'Dolig?
Tarzipan!!

Be gewch chi wrth groesi afal a choeden Nadolig?
Pînafal!

Beth ddigwyddodd i'r angel ar ben y goeden ar ôl iddi fwyta un o'r addurniadau?
Fe gafodd hi tinselitis!!

**Meddyg:** Ydych chi wedi cymryd tymheredd y wraig yma?
**Nyrs:** Naddo wir, wyddwn i ddim ei fod o ar goll!

**Gareth:** Pam mae'r ci acw yn cyfarth?
**Sian:** Dim syniad. Pam?
**Gareth:** Wel, pe bai'n dechrau mewian, cath fydde fe!

**Barbwr:** Sut hoffech chi i mi dorri eich gwallt, syr?
**Dyn:** Yn fyr iawn un ochr, dim o gwbl ar yr ochr arall, y blaen yn gam a chydynnau yn y cefn.
**Barbwr:** Fedra i ddim gwneud hynna!
**Dyn:** Pam? Dyna wnaethoch chi'r tro diwethaf!

**Ceri:** Pam mae'ch gŵr chi wastad yn eich galw yn 'flodyn annwyl'?
**Sian:** Garddwr ydi o!

**Mam:** Pam wyt ti'n crio?
**Derwyn:** Dad dorodd ei fawd â morthwyl.
**Mam:** Rydw i'n synnu na wnest ti chwerthin.
**Derwyn:** Dyna wnes i ...!

**Sian:** Wnewch chi fy helpu i, Doctor? Dydw i ddim yn gallu cofio dim byd!
**Doctor:** Ers faint rydych chi wedi bod fel hyn?
**Sian:** Wedi bod sut?

**FEDRWCH CHI DDOD O HYD I'R GEIRIAU YMA**



IESU
BABAN
MAIR
JOSEFF
CAROL
ANRHEG
THUS
NADOLIG
DOETHION
ANGYLION
STABL
BUGEILIAID
AUR
MYRR



## ENILLWYR MIS RHAGFYR

Enillwyr mis Rhagfyr yw:
Michelle Louise Roberts, 6 Tal y Bont, Llanrug (8 oed)
Awen Humphreys, Rhoslan, Stad Minffordd, Llanrug (8 oed)
Elfed Morgan Morris, Llechwedd, Deiniolen (7½ oed)
Keith Williams, Bryn, Cwm y Glo (6 oed)

### LLONGYFARCHIADAU I CHI'CH PEDWAR!!

Gobeithio y byddwch yn cael Nadolig Llawen iawn, ac y bydd Siôn Corn yn dod a llond sach o anrhegion a fydd wrth eich bodd!!

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB!**

## CYSTADLEUAETH OLA'R FLWYDDYN

ENW ..........................................................................

CYFEIRIAD ..................................................................

..........................................................................................

OED ...........................................................................

## LLIWIWCH Y LLUN



# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

CLWB PÊL-DROED: Enillwyr y Clwb 200 yw: £80: Huwcyn, 47 Pentre Helen (Rhif 102);

£40: Gwyn, 21 Pentre Helen (Rhif 164).

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, Deiniolen, a enillodd y wobr gyntaf ar unawd dan 8 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni.



MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod Rhagfyr cafwyd hanes gwyliau Eirlys Williams yn Oberammergau.

Canwyd carolau gyda Beti Wyn Davies wrth y piano. Enillwyd y raffl gan Nansi Owen.

Bydd cyfarfod Ionawr 21 yn gyfarfod agored pryd y ceir darlith gan Mr Selwyn Griffith, Bardd y Goron, ar 'Ambell Bill'. Cynhelir y ddarlith gyda chefnogaeth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan ar Ragfyr 3 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y Llywydd, gyda Mrs Evans, Penrhosgarnedd, y VCO yn bresennol.

Darllenodd y llywydd y llythyr misol. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Marian Williams y trysorydd. Darllenwyd y cofnodion am y flwyddyn gan Mrs Beti Wyn Davies yr ysgrifennydd.

Diolchwyd i Mrs Evans gan Mrs J. Eirlys Williams, a diolchodd hefyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd y te gan y Pwyllgor. Enillwyr y raffl gan Mrs Eirian Jones.

Dyma'r Pwyllgor am 1991 — Llywydd: Mrs Marian Williams; Islywydd: Mrs J. Eirlys Williams a Miss Betty Williams; Ysgrifennydd: Mrs Beti Wyn Davies; Trysorydd: Miss Eileen Williams; Gohebydd y Wasg: Mrs Beryl Hughes. Hefyd ar y pwyllgor — Mrs Beryl Hughes, Mrs Eirian Jones; Miss Jean Moeller a Mrs Marian Wyn Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 14eg.

DIOLCH: Dymuna Iwan, Hafle, Rhes Faenol, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 2.

DIOLCH: Dymuna Mrs Clarice Roberts, gynt o'r Bull, Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn i bawb o'i ffrindiau a anfonodd gardiau, anrhegion a blodau iddi ar ei hymddeoliad ym mis Tachwedd. Diolch o galon i chi i gyd.

APÊL ROMANIA: Dymuna Mrs Beti Roberts, 7 Tai Fictoria, ddiolch i'r holl ardalwyr am eu cefnogaeth a'u haelioni tuag at yr Apêl uchod. Mae'r apêl wedi mynd ymlaen ers blwyddyn bellach ac fel y gwyddoch o raglenni teledu a phapurau newydd, mae wedi bod yn llwyddiannus dros ben trwy barodrwydd trigolion o ardaloedd fel Deiniolen i gyfrannu.


Fe wnaethpwyd cyfraniad ariannol trwy y Groes Goch ym mis Ionawr i brynu nwyddau meddygol. Yna bu plant yr ardal, yn enwedig plant Ysgol Gwaun Gynfi yn hel teganau i'w hanfon i gartrefi plant amddifad yn Bacau (Hon oedd Apêl 'Toy Joy' y News of the World). Da iawn, a diolch i blant Deiniolen. Hefyd i Mr Gwynfryn Jones, Mr Elwyn Robinson, Mrs Beryl Griffith a Mrs Margaret Roberts, Ysgol Gwaun Gynfi.

Rhoddodd llawer ohonoch ddillad, blancedi, sebon a dillad plant bach ac ati, ac yn ystod yr wythnosau diwethaf, buom yn casglu o dŷ i dŷ i gael arian i yrru mwy o nwyddau i gartrefi yn Dorohoi, Gogledd Romania. Eto yr oedd yr ymateb yn rhagorol, diolch yn fawr.

Fe wyddoch fod amryw o fudiadau ar waith yn Arfon bellach yn casglu at y Gronfa ac yn mynd a nwyddau allan i'r wlad. Mae'n braf meddwl mai Deiniolen oedd un o'r pentrefi cyntaf i ymateb i'r argyfwng ar noswyl Nadolig 1989.

**Beti Roberts**
(Trefnydd Apêl Deiniolen)


# OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
**Ffôn: Llanberis 870545**


# LLWYDDIANT I'R BAND



*O ganlyniad i weithio diflino aelodau Band Deiniolen gyda aelodau ifanc, derbyniwyd rhodd werthfawr gan Gronfa Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru. Yn y llun uchod mae cynrychiolydd y Gronfa, Bethan Lewis, yn cyflwyno corned newydd i Euros Williams, aelod o'r Band.*



*Llongyfarchiadau i Ddeiniolen am ennill y wobr gyntaf yn Ail Adran, Cystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno ddechrau Rhagfyr. Maent wedi ennill y wobr hon ddwy flynedd yn olynol, ac y mae'n bur debyg y byddant yn cael eu dyrchafu i'r Adran Gyntaf erbyn y flwyddyn nesaf. Arweinydd y Band yw Mr Graham Saunders.*



*Llongyfarchiadau hefyd i Fand Ieuenctid Deiniolen am ennill y wobr gyntaf yn yr un gystadleuaeth yn yr adran i Fandiau Ieuenctid. Cawsant ganmoliaeth uchel gan y beirniad mewn cystadleuaeth o safon arbennig, gan orchfygu pump o fandiau ieuenctid eraill. Arweinydd y Band Ieuenctid yw Mr Dafydd Wyn Williams.*


NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

**Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol**

**Am holl anhenion eich offer nwy**

**FFLAM ERYRI**

Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain

**Gwasanaeth 24 awr**

Geraint Fôn Williams ☎ **Penmaenmawr 622422**



*Dylan Williams o Ddeiniolen gyda Cwpan Coffa Herbert Owen. Enillodd y tlws yng Nghystadleuaeth bandiau Pres Gogledd Cymru, a'i ddyfarnu yr Unawdydd Horn gorau yn y gystadleuaeth.*



*Iwan Williams gyda Tlws Cymdeithas Adeiladu'r Principality a enillodd am ddod yn chwaraewr cornet unigol gorau yn Adran Ieuenctid Cystadleuaeth bandiau Pres Gogledd Cymru.*

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG: Nos Sul, 23 Rhagfyr, am 5 o'r gloch, Drama'r Geni gan blant yr Ysgol Sul.

Bore'r Nadolig, Cymun Bendigaid am 9 o'r gloch.

Nos Sul 30 Rhagfyr am 5 o'r gloch, Gwasanaeth Naw Llith a Charolau.


## AR WERTH

**Beic Rasio 5 gêr i ferch. Pris £50**

**Ffôn: (0248) 670726**



## HOFFECH CHI

**wireddu breuddwyd arbennig?**

Darllen y newyddion?
Cyfarfod rhywun enwog?
Sgorio cais ar barc yr Arfau?
Canu mewn grwp, opera neu Gôr?
Cymryd rhan mewn rhaglen deledu?

**DYMA EICH CYFLE.**

Os hoffech wneud un o'r uchod neu rhywbeth arall hoffwn glywed gennych ar gyfer cyfres newydd i S4C

Anfonwch eich llythyrau at
**Elwyn Vaughan Williams, Cwmni'r Castell Cyf. 1 Ffordd Coed Pella, Bae Colwyn, Clwyd LL29 7AT**


# CWM-Y-GLO

**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275**

CYDYMDEIMLIR â Mr Sam Jones, Bron Eryri, ar farwolaeth ei frawd yn Seland Newydd.

CINIO: Nos Fercher, Rhagfyr 5, fe gynhaliwyd Cinio Nadolig yr oedolion. Daeth nifer fawr ohonynt ynghyd ac fe dreuliwyd amser difyr, gyda pawb yn mwynhau pryd blasus iawn, derbyn anrheg gan Siôn Corn a chymerwyd rhan yn yr adloniant gan Raymond o Lanberis a J. R. a'r genethod.

Diolch gwresocaf i bawb a fu'n cynorthwyo y fenter mewn unrhyw fodd.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Miss Elizabeth Hughes, Tan-y-Graig a Mr a Mrs Llew Hughes, Hyfrydle, yn eu profedigaeth o golli wyres, Mrs Dilys Sharp, gynt o Alexandra House.

Hefyd â Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View, yn ei brofedigaeth o golli brawd i lawr yn y De.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs N. Williams, Pant Afon, ar fod yn hen nain am y tro cyntaf ac i Mrs E. Morris, Hafan, ar fod yn hen nain. Ganwyd merch fach i Annwen a Glyn.

Hefyd i Mr a Mrs Hywel Williams, Nant Forgan, ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab bach i Leslie a Janet, brawd bach i Siân.

DIOLCH: Dymuna Mr Idwal Williams a'i frodyr Iorwerth, Ian a Wyn ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli eu brawd.

CLWB POBL Y CWM: Ar Hydref 25, ein cyd-aelod Mr R. H. Parry ofalodd am y sgwrs y tro hwn, ac aeth â ni i fyd Barddoniaeth Gymraeg. Dewisodd yn ofalus ddarnau ar wahanol themâu o waith ein Prifeirdd, a chafodd hwyl arbennig ar eu darllen, gan roi cyfle i ni i gyd ail-werthfawrogi cyfoeth y gelfyddyd.

Diolchodd Mr Llew Hughes yn gynnes iddo. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs E. Hughes a Miss E. Hughes, ac enillwyd y raffl gan Mrs Mair Williams.

Ar Dachwedd 8, Mr Cledwyn Williams, Llanrug, oedd ein gŵr gwadd, a threuliwyd pnawn difyr yn sôn am gymeriadau, digwyddiadau a chyd-ddigwyddiadau rhyfedd a diddorol. Yn naturiol caed ambell drem yn ôl i'r cyfnod pan oedd yn ysgolfeistr yma, gan gydgofio ambell ddigwyddiad ac ambell gymeriad.

Braf fu cael ei gwmni, a hyfryd ei weld yn ôl dros dro yn yr Ysgol. Caed gair o ddiolch i Mr Williams gan y Llywydd a Mr R. H. Parry.

Y gwestwragedd oedd Mrs E. M. Jones a Mrs M. Rowlands, ac enillwyd y raffl gan Mrs K. Watkins.

Pleser fu cael croesawu Mr J. R. Williams, ein Prifathro, i'r clwb ar Dachwedd 22, a gyda chymorth sleidiau, aeth â ni am fordaith o amgylch Ynys Môn, mordaith y bu Mr Williams ei hun yn gwneud gwahanol astudiaethau arni.

Diddorol sylwi mor wahanol yr edrych y pentrefi a'r adeiladau o'r môr, a difyr cael bod mor agos i Ynys Seiriol. Yn ogystal â gweld, cawsom gyfraniad helaeth o wybodaeth a gasglodd Mr Williams yn ei astudiaeth, a theimlai pawb inni gael p'nawn difyr a gwahanol.

Diolchwyd yn gynnes i Mr Williams gan Mr R. H. Parry. Gofalwyd am y baned a'r raffl gan Mrs Glenys Pritchard a Mrs Mair Parry. Enillydd y raffl oedd Mrs E. M. Jones.

Ar Ragfyr 6, cynhaliwyd y Parti Nadolig. Cyn dechrau ar y wledd a drefnwyd gan yr aelodau ar gyfer y cyfarfod hwn, cafwyd sgwrs ddifyr ar 'Ap Glaslyn' gan Mr Llew Hughes, gydag ambell un arall yn rhoi pwt i mewn. Yn ogystal, cafwyd eitem ddigrif gan Mrs Watkins, a mwynhawyd y danteithion gan bawb, mewn awyrgylch hapus.

Enillwyr y raffl oedd Mrs G. Chick, Mrs J. Parry a Mrs G. Pritchard. Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf ar Ionawr 10.

BINGO: Diolch o galon i bawb a helpodd mewn unrhyw fodd i wneud y Noson Bingo, a gynhaliwyd ar Dachwedd 21 yn y Ganolfan, yn un mor llwyddiannus.

Diolch am yr anrhegion a'r rhoddion at y Raffl, diolch am y llefrith a'r rhoddion o arian. Diolch hefyd i Mrs Enid Price am alw. Codwyd £234 tuag at Gronfa Alan Pritchard.

Enillwyr y raffl oedd — Sieri: Mrs Alwen Jones, Ysgol Cwm y Glo; Gwin: Sandra, Glanrafon; Gwin: Miss Wright, Manchester House; Sach dringo: 3, PoolSt., Cwm-y-Glo; Tin Bisgedi: Mrs Cookson, Clawdd Cerrig; Bisgedi: 21 Dolafon; Bisgedi: Gelynen House; Bisgedi: Donna, Glanbogelyn; Quality Street: Wyn Rowlands, Glanrafon; Gwydrau: Mrs Owen, Glandwr; Gwydrau: Mrs Mary Gawthorpe, Angorfa.

Dairy Box: Roy, Llanberis; Toweli: Terry Williams, Bryn; Gwydrau a phlanhigyn: Ty'n Ffridd, Cwm-y-Glo; Sebon ac ati: Dafydd Euron, Bwlch; Hylif Bath: Bethan Hughes, 17 Dolafon; Stereo personol a chanhwyllau: Catherine Foulkes; Câs pyjamas: Veronica Williams, Tan y Bryn, Glanbogelyn.

DIOLCH: Roedd derbyn gwahoddiad i swper Nadolig oedolion y Cwm yn rhoi pleser a mwynhâd i ymuno â chwmniaeth hyfryd y brodorion.

Cawsom ein derbyn yn y cyntedd gyda gwên a pharchusrwydd a'n hebrwng at fyrddau oedd wedi eu haddurno yn hynod o ddeniadol. Gwragedd ieuanc glandeg yn amlwg hapus i weinyddu arnom.

Roedd y darpariadau yn ôl arferiad wedi cyrraedd safon uchel iawn ac yn sicr yn haeddu gwobr 'Egon Ronay'. Cyflwynwyd anrheg i bob un o'r gwahoddedigion gan Santa Clôs, a chafwyd adloniant i ddilyn yn cynnwys Raymond a'i gitâr, a pharti y gweinyddesau dan arweiniad gŵr bonheddig mewn lifrai urddasol y gorffennol.

Galwodd Siôn Corn, Bwrdd Crwn Caernarfon, ar ei ffordd drwy'r pentref i ddymuno gwyliau hapus i bawb. Meistr y Seremoni oedd Mr Dafydd Price.

Hoffwn ar ran y gwahoddedigion ddiolch yn garedig iawn i bawb gymerodd ran i drefnu noswaith mor lwyddiannus. **Llew Hughes.**



Addurn cerddorol: Eluned Davies, Alexandra; Stereo personol plentyn: Avril Jones, Glan Don; Cyfrifianell: Vera Price, Tan-y-Graig; Ffeiloffacs: Enid Price, New Street; Cloc: Catherine Williams, Bro Rhythallt; Dillad pêl-droed ac ati: Sioned Jones, Isfryn.

Lori fach a bag coluro: Ceri Evans, Awelon; Cap a Sgarff: Ann, Llanberis; Tegell tegan: Sylvia Williams, Bwlch; Gwydrau: Donna, Glanbogelyn; Menyg: Diane Williams, Tan-y-Gaer; Xylophone: Terry Williams, Bryn; Bwrdd Du ac injan dân: David Foulkes, Tan-y-Bryn; Hylif Bath: Jean Hughes, 2 Bryn Gro; Talc, Sebon ac ati: Margaret, Llanberis.


## AR WERTH

**Beic — 'Shadow Turbo'**

**i fachgen 5-8 oed mewn cyflwr da.**
**Pris £40 yn cynnwys helmed galed**
**Cysyllter â R. Parry, Tawelfa, Glascoed Penisarwaun**
**Ffôn: 870 846**



I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**40 Stryd Fawr PORTHAETHWY**
**Ffôn: (93) 714043 neu Caernarfon 4520**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**CHRISTINE A MICHAEL**

# TREFLYN STORES

## BETHEL

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf yn y siop

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll oddi wrth

***GWILYM A MEIRWEN JONES***

# SWYDDFA'R POST

## BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD A FIDEOS

---

Mae

**KEVIN A BRIAN**

a Staff

# TAFARN GORS BACH

## LLANDDEINIOLEN

Yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid hen a newydd

---

# Y BEDOL

EXCELLENT HOME COOKED FOOD

FINE TRADITIONAL ALES

## BETHEL

**Ffôn: Port Dinorwig 670155**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid holl**

---

**CARTREF PRESWYL**

# SANT TEILO

SARON

## BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

**yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff**

**Ymholiadau: Port Dinorwig 670353**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll bawb oddi wrth

# GAREJ MINFFORDD

## BETHEL

**T. R. EVANS**

**Ffôn: Felinheli 670451**

Dymuniadau gorau am y flwyddyn newydd



*Rover ▪ Metro ▪ Maestro ▪ Montego ▪ Mini*

---

CYFLENWYR PORTHIANT

# IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

**Y Fachell**
**Llanddeiniolen**
**Ffôn:**
**Port Dinorwig 670439**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

CLWB Y MAMAU: Gan fod Clwb y Mamau wedi peidio â bodoli ers dros flwyddyn, penderfynwyd galw cyfarfod o'r cyn-aelodau i drafod sut i rannu'r arian oedd yn y coffrau.

Galwyd cyfarfod nos Fercher, Tachwedd 28, ac fe benderfynwyd trosglwyddo yr arian i gronfa'r Neuadd Goffa. Mae siec am £482.24 wedi ei roddi i drysorydd y Neuadd, Mr Gwyndaf Williams.

URDD: Erbyn hyn mae gweithgareddau tymor y gaeaf wedi gorffen. Cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni Mrs Margaret Jones o Dregarth, yn dangos sut i greu addurniadau Nadolig. Aeth pob plentyn ag addurn deniadol iawn adref, a diolchwyd i Mrs Jones gan Caryl Owen.

I gloi'r tymor, cafwyd parti a Disgo – pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Ar ddiwedd y noson cyflwynwyd rhodd fechan i Iorwerth Williams am drefnu'r Disgo, ar ran aelodau'r Urdd, gan Eleri Robinson a Fiona Lambrecht.

Bydd y tymor nesaf yn dechrau ar Ionawr 10. Nadolig llawen i bawb oddi wrth aelodau'r Urdd.

CLWB BRO BETHEL: Cynhaliwyd te Nadolig y Clwb yn Festri Bethel, pnawn Mawrth, Rhagfyr 4 dan lywyddiaeth y Parch W. R. Williams. Canwyd carolau dan arweiniad Mrs Glenys Griffith.

Cafwyd gwledd ardderchog wedi ei drefnu a'i baratoi gan rai o chwiorydd y Clwb. Cafodd pawb oedd yn bresennol anrheg.

Trefnwyd y gêm Siôn a Siân gan M. G. Williams, Gwylfa, pryd y cymerwyd rhan gan bump o gyplau. Darfu i bawb fwynhau eu hunain.

Diolchwyd am y lluniaeth ar ran y Cymry gan Mrs Nancy Jones, Bron Eilian; ar ran y Saeson gan Mr Fellows, Stâd y Ddôl, ac ar ran cartref St Teilo gan Mr Pritchard.

Wrth ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, diolchodd yr ysgrifennydd, Mrs Bessie Ellis i'r canlynol: Mr Sam Jones, Cefn; Mr Gwilym Hefin Williams; Mr Goronwy Jones a Mr Hughes, Cae Metta (Hughes Meat) a fu mor garedig a rhoddi yr oll o'r cig yn anrheg Nadolig i'r Clwb. Hefyd diolchodd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd (arian neu nwyddau) at y te.

Dymuna'r aelodau, yn enwedig y Swyddogion ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu haelioni.

YN 18 OED: Llongyfarchiadau i Llion Jones, Eithinog, ar ddathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Ragfyr 6.

Llongyfarchiadau hefyd i Kelvin Roberts, Bro Rhos, oedd yn dathlu ei benblwydd ar Tachwedd 29.

LLONGYFARCHIADAU i Helen Williams 1 Tan y Cae ar ei dyweddïad gyda Steven Hall, Talysarn. Dymuniadau gorau i'r ddau.

CLWB 200 Neuadd Goffa Bethel: Dyma'r enillwyr – £20: Mrs Ann Mercer, Roslyn, Tan y Ffordd, Bethel (165); £10: Mrs Jean Williams, Penlon, Saron, Bethel (2); £5: Mr Dennis Harrison, Bakhita, Bethel (181); £5: Mrs Nan Rowlands, 23 Y Ddôl, Bethel (55); £5: Mr Brian Williams, Cefn y Gwynt, Bethel (114); £5: Mrs Olwen Foulkes, Gwynant, Saron, Bethel (191); £5: Mrs Jean Christinson, Tŷ Capel Cysegr, Bethel (185); £5: Mrs Nora Parry, Wilnor, Tan y Buarth, Bethel (4).

GWASANAETH NADOLIG: Fel arfer cynhelir gwasanaeth cymun i'r teulu yng nghapel Y Cysegr am 10 o'r gloch fore Nadolig. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS: Yn ystod y mis cafwyd dwy ddarlith ddifyr iawn yn y Gymdeithas. Nos Fawrth, Tachwedd 27 roedd Eigra Lewis Roberts yn Festri Bethel yn sôn am ei gwaith yn ysgrifennu.

Nos Fawrth, Rhagfyr 11 yn Festri Cysegr cafwyd darlith gan Geraint Lloyd Owen.

Nos Fercher, Rhagfyr 12, aeth rhai o aelodau'r Gymdeithas i ymweld â Chymdeithas Siloam, Bontnewydd. Cafwyd noson ddifyr iawn dan arweiniad Arwel Jones.

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU: Nos Sul, Tachwedd 25 derbyniwyd 7 yn gyflawn aelodau yn y Cysegr. Yng ngwasanaeth y nos derbyniodd y Parchedig W. R. Williams, Kevin ac Ian Roberts, Bro Rhos; Gwen Jones, Fachell; Ceryl Roberts, Cefn Cynrig; Ian Jones, Stad Eryri; Huw Williams, Cefn Gwyn; a Gerallt Bryfdir Jones, Bwlch y Gwynt, yn gyflawn aelodau.

# TÎM CWIS LLYFRAU YR YSGOL



*Hywel James o Adran Llyfrgell y Sir yn holi Rhys Jones, Lois Druce, Caryl Owen, Delyth Michael, Angharad Roberts, Huw Jones, Eleri Robinson ac Ellen Jones am eu dewisiad o lyfrau Cymraeg.*

## CHWARAE RYGBI I WYNEDD




*Eleni cafodd Rhys Trefor ei ddewis i chwarae i dîm rygbi Gwynedd (dan 11). Maent eisoes wedi chwarae yn erbyn Ysgolion Cymradd Clwyd ac yng Ngwent. Mae Rhys yn ei flwyddyn olaf yn Ysgol Gynradd Bethel.*

**CYFARCHION NADOLIG: Mae preswylwyr Cartref Sant Teilo yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau a chyfeillion.**

## *CAWL CARTREF*

*Mae Teledu'r Tir Glas yn chwilio am fideos cartref doniol ar gyfer cyfres deledu newydd 'Nos Sadwrn', fydd yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd.*

*Mae'r camera fideo yn dechrau dod yn declyn cyfarwydd mewn llawer o gartrefi, ac yn cael ei ddefnyddio i ffilmio priodasau, plant, chwaraeon a digwyddiadau lleol o bob math.*

*Weithiau mae 'na rywbeth annisgwyl yn digwydd ynghanol y ffilmio sy'n creu eiliad o ddoniolwch pur. Dyma'r math o fideo y mae Tir Glas yn chwilio amdano, a'r gobaith ydi dangos y goreuon ar y rhaglen.*

*Bydd fideo gorau'r gyfres yn ennill gwobr o wyliau tramor i ddau ar ddiwedd y gyfres. Bydd y cwmni'n anfon pob fideo yn ôl i'w berchennog cyn gynted ag y bo modd.*

*Y cyfeiriad ydy: Teledu'r Tir Glas, Maesincla, Caernarfon, Gwynedd. Rhif ffôn: (0286) 5766. Cynhyrchydd y rhaglen yw Huw Jones.*

# RHODDION

**£5: Nia Williams, Tyddyn Andrew, Bethel; John V. Morris, Rhianfa, Clwt y Bont, Deiniolen; Mr a Mrs W. A. Jones, Dalar Deg, Llanrug.**

**£4: Llion a Lliwen Hughes, 1 Stryd Tomos, Llanberis.**

**£2: Iwan Williams, Hafle, Rhes Faenol, Deiniolen; Mrs P. Jones, 21 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun.**

**£1: Mrs M. J. Roberts, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun.**

**Beth am ddysgu dreifio gydag YSGOL YRRU BETHEL**

**TACSI CARIAN**

* Pell ac agos
* Stesion, Maes Awyr, Porthladd
* 24 awr y dydd

42 Bro Rhos, Bethel

**PORTDINORWIG 671009**

Dymuna **Eirlys** a **Dic** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid a ffrindiau

Nadolig Llawen i bawb oddi wrth

**GWILYM H. WILLIAMS**

a'r teulu

**BRYN DAIRY**

**2 BRYNHYFRYD**

**BETHEL**

**Ffôn: Felinheli 670786**

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a aeth heibio

Dymuniadau gorau am y Flwyddyn Newydd



CYFARCHION NADOLIG
# WAUNFAWR
A BETWS GARMON



Castell Cidwm

Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r** Pysgotwyr, **GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig,** yn gynnil o wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio. Cyfarchion y tymor oddi wrth **PENNY A DAVID ROBERTS**

**Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

**ALLEN AC ANNE ADDISON A'R TEULU**



**YSTORFA TŶ NEWYDD**

**WAUNFAWR 708**

Bwydydd, Melysion, Ffrwythau, Papurau Newydd, Cardiau, Fideos a Bwydydd Anifeiliaid

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**EMRYS OWEN**

**PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN**
(Waun Agricultural Engineering)



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

**WAUNFAWR**
**Ffôn: Waunfawr 253**




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

**ANTUR WAUNFAWR**
**Ffôn: Waunfawr 721**


**CARPEDI GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer diweddaraf, sydd ar gael.
Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291**
**Hefyd ail-osod carpedi**
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**


**GERAINT OWEN**
**Gosodwr Carpedi**
(A phob math o loriau)
Cil-y-mynydd
**Waunfawr**
**Rhif ffôn: Waunfawr 552**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth: Mr a Mrs Owen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
**SIOP LOUIS**
**WAUNFAWR**
**Ffôn: 208**
* Nwyddau Groser
* Melysion
* Sigarets
* Fideos
* a llawer mwy

Mae
**Eva a Dave EVANS**
**SIOP CHIPS WAUNFAWR**
**Ffôn: 683**
yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda bawb oddi wrth
**BERYL A BARRY WALKER**
a staff y



**SNOWDONIA PARK HOTEL**
**WAUNFAWR**
**Ffôn: 409**

**SNOWDONIA FIRE PROTECTION**
**YR HEN EFAIL**
**WAUNFAWR Ffôn 235**
**Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref**
**Goleuadau argyfwng Larwm Tân**
**Offer canfod mwg ar gyfer y cartref**
**Hyn oll, a llawer mwy i'w weld yn ein siop**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH DAVID A PETER GREASLEY A'R STAFF

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR
Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd: £40 — Sandra Griffiths, Tŷ Ni; £25: J. A. Parry, Llys Arfon; £10: H. Basterfield, Ty'n Rardd.
COFFÂD: Carwn roi coffâd y mis hwn am ein diweddar weinidog, sef y Parch Ivor Rowlands, Caernarfon, a fu yn weinidog mor ofalus o'i braidd tra y bu yn Croes-y-Waun, Waunfawr, am ddeng mlynedd, cyn ymfudo i Awstralia i fyw.

Roedd mynd garw ar wasanaethau'r eglwys yn ystod ei arhosiad yma. Rhywbeth bron bob nos yn y festri — Seiat, Cwrdd Gweddi, Cymdeithas, Band of Hope ac ati.

Roedd yn ardderchog am gael actorion i'w gwmni drama. Byddem yn cael galwad i wahanol bentrefi, a'r arian bob amser yn mynd at rhyw achos da.

Roedd yn hynod garedig gyda phawb o'i aelodau fyddai'n wael. Cof gennyf amdano ef a'r diweddar Mr Wyn Jones yn aros aml i noson gydag ambell i glaf y pryd hynny.

Roedd Mrs Rowlands yn help mawr iddo. Roedd hi yn wraig gweinidog gyda'r gorau.

Roedd y Parch Harry Williams yn weinidog yn Bethel, a bu'r ddau yn gyfeillion mawr. Roedd y ddau yn gallu trin y bobl ifanc i'r dim. Byddent yn mynd am daith gerdded i'r mynyddoedd yn griw mawr, ac hefyd ar dripiau bws.

Chwith garw gennym ei golli, roedd gan Mr Rowlands feddwl mawr o'r Waun. **K.R.**

ESTYNNWN ein cydymdeimlad dwys â Mrs Rowlands a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl.
AR GOLL: Nos Wener, Tachwedd 16, collwyd goriad reit fawr yng nghyffiniau'r Ganolfan. Os y dowch o hyd iddo, a wnewch chi gysylltu â Mrs Owen, Bryn Gwylan, os gwelwch yn dda.
DIOLCH: Dymuna Geralt a Sara Rowlands, Bryn Golau, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.
DIOLCH: Dymuna John ac Elena Jones, Hafod y Rhug, ddiolch i Cari am y gacen a wnaeth iddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem.
DIOLCH: Dymuna Alan ac Ann Addison ddiolch i'w cwsmeriaid am gefnogi'r casgliad yn y siop at Blant Mewn Angen. Anfonwyd dros £80 i'r gronfa.
CYDYMDEIMLWN yn fawr â theulu a chyfeillion y diweddar Mr Emlwyn Davies, Bodwyn; â theulu y ddiweddar Mrs Bertha Warwick, Llys Awen; ac â Mr Jeff Daniels, 8 Stad Tŷ Hen yn ei brofedigaeth o golli ei dad.
LLONGYFARCHIADAU i Lorna Perkins, Tŷ Newydd, ar ei phriodas â Tim o Awstralia. Byddant yn ymgartrefu yn Ninorwig.
DATHLU PENBLWYDD: Ddydd Nadolig bydd Mrs Grace Griffith Tan 'Rallt yn dathlu ei phenblwydd yn 92 mlwydd oed. Llongyfarchion mawr i chi Mrs Griffith.
GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Mandy a Keith Williams, Ael-y-Bryn, ar enedigaeth eu mab bach, Owain Dafydd, brawd i Wena Lyn ac ŵyr bach i Mr a Mrs R. Williams, Bro Waun.
ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbyty i Mrs K. Wyn Jones, Bron Eifion, Mrs Gwyneth Griffith, Llys Helen, Mr Perkins, Bychan Lees Cottage, a Mr Richard Owen, Stad Bro Waun.
DYMUNIADAU GORAU i Grace, Cyril a'r teulu sydd wedi ymgartrefu gyda'u tad yn Bro Waun.

Hefyd i Rosina, Tom a'r hogiau sydd wedi symud o'r Waun i fyw yn Stad yr Hendre, Caernarfon.
TÂN YN EI GARTREF: Pan ddaeth Mr Emyr Evans, Cae'r Ffynnon, adref o sêl Abergele brynhawn Llun, canfu ddiffoddwyr tân yn ymladd tân yn ei gartref. Digalon iawn oedd wynebu'r fath ddifrod, ac mae achos y tân yn dal yn ddirgelwch.
YR URDD: Nos Fercher, Tachwedd 21, cafodd y plant flas ar fyd y theatr, pan ddaeth Mari Emlyn a Sera (o Bwllheli) i ymweld â hwy. Cawsant sôn ychydig am sgiliau actio ac am goluro. Diolch i Anti Glen ac Anti Beryl am gynorthwyo.

Daeth y milfeddyg Mr Dewi Williams o Gaernarfon at y plant nos Fercher, Tachwedd 28. Bu'n sôn ychydig am ei waith. Diolch i Anti Pat ac Anti Nan am gadw trefn.

Cafwyd noson o ganu Carolau nos Fercher, Rhagfyr 5. Llywydd y noson oedd Alma Jones a throsglwyddodd y noson i ddwylo medrus Mrs Eryl Thomas, prifathrawes yr ysgol gynradd.

Diolch i Mrs Thomas, ac i bawb arall a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant. Gwnaethpwyd casgliad tuag at gronfa'r Hospice yn y Cartref, a chafwyd £50 i'r coffrau. Enillwyd y raffl gan Mrs Pat Parry, Bron Llywelyn.

Paratowyd disgo ar gyfer plant yr Urdd nos Fercher, Rhagfyr 12, gyda dai o Swyddfa'r Urdd ac Anti Heulwen ac Anti Ann Elfyn, ac yna ar Ragfyr 19 daeth Gill Brown i'r Ganolfan i ddangos i'r plant sut i baratoi ychydig o ddanteithion at yr Ŵyl. Diolch iddi hi, ac i Anti beryl ac Anti Rhiain am roi eu hamser — gobeithio na chawsoch chi ormod o waith golchi llestri, ferched!

Casglodd Adran Waunfawr dros £80 o bunnoedd tuag at yr Urdd, pan wnaethpwyd casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar. Diolch i bawb am gefnogi.

Bydd pwyllgor yr Urdd yn cyfarfod yn y Ganolfan am 6 o'r gloch (amser yr Urdd) nos Fercher, Ionawr 9 a bydd y cyfarfodydd yn ail gychwyn nos Fercher, Ionawr 16 am 6 o'r gloch yn y Ganolfan.
DIOLCH: Dymuna Mrs Hughes, Llys Meredydd, ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am bob caredigrwydd y mae wedi ei dderbyn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.
APÊL PLANT AMDDIFAD RWMANIA: Dymuna trefnwyr y noson Moes a Phryn a gynhaliwyd yn y Ganolfan nos Lun, Rhagfyr 3 tuag at apêl y rhaglen deledu 'Blue Peter' i gronfa plant Rwmania, ddiolch i bawb a'u cefnogodd ac i'r rhai a gyfrannodd tuag at y gwobrau raffl.

Dyma'r enillwyr: Lamp Fwrdd: Mrs Anna Taylor; Camera: Susan Beech; Blodau Sych: Mr Thomas y plismon; Set Ffondŵ: Geraldine Henderson; Alarm Tân: Mrs Rita Henderson; Cacen Nadolig: Mrs Mair Williams; Tegan Meddal: Mrs Anita Westbury; Ffrwythau: Mrs Iola Jones; Siocled: Mrs K. M. Jones, Alan Jones a Mark Stevenson; Gwin: Mrs Christine Davies, Mrs Heulwen Huws a Mrs Mair Jones, Caernarfon.

Anfonwyd £151 i'r gronfa.
ANFONWN ein cofion at Mr a Mrs R. Jones, Y Bwthyn, y ddau wedi bod yn yr ysbyty.

## ENILLWYR IEUAINC 'STEDDFOD Y WAUN









Mae
**LLEUFER A NELMA PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR**
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll**

Cyfarchion y tymor gan *Westy PLAS-Y-COED*
Betws Garmon,
Ffôn: Waunfawr 284



- Ar gor bob dydd
- Trywdded Lawn
- Bwydydd Restaurant a Bar

**MICHAEL A RAILI BURTON**
**LLYTHYRDY BETWS GARMON**
**Ffôn: Waunfawr 233**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

## CYFARCHION PENISARWAUN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

**Aled Jones**
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
**4 Bryn Eglwys**
**Penisarwaun**
**Ffôn: Llanberis**
**871047**

Am bob math o wydr wedi'i dorri, ddanfon neu osod.
cysylltwch â
*Barrys* GLASS
**Camalot, Penisarwaun**
**Ffôn: Llanberis 871144**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
TONY A JO



**SIOP GRON**
**A SWYDDFA'R BOST**
**PENISARWAUN**
**FFON: LLANBERIS 871272**
Diolch yn fawr i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn



*Nadolig Llawen*
*a Blwyddyn*
*Newydd Dda*
*i bawb oddi wrth*

**CARTREF NYRSIO PENISARWAUN**

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
★Gwres canolog llawn
★Sustem ddiogelu rhag tân
★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
★Sustem alw nyrs
★Yn Cwrdd â phob angen personol
★Lle bwyta mawr
★Aros cyfnod hir/byr
★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
★Coginio cartefol
★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
**Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038**


## PENISARWAUN


**Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407**


CYFEILLION YSGOL-TAN-Y-COED: Cynhaliwyd Ffair Nadolig hynod o lwyddiannus yn yr ysgol, nos Wener, Tachwedd 30. Gwnaed elw o £350. Roedd pawb yn falch o weld Mrs Ann Ifans yn ein plith unwaith eto — hi oedd yn agor y Ffair, a diolchir iddi am y rhodd hael a'i help ar y stondinau.

Diolchir i'r holl rieni, staff a chyfeillion am eu cymorth ar y noson. Edrychwn ymlaen yn awr at **Barti Calan**, ddydd Gwener, Ionawr 11. Byddwn yn falch iawn o unrhyw gymorth.

YSGOL TAN-Y-COED: Bu prysurdeb yn yr ysgol yn ddiweddar gan gychwyn gyda Ffair Llyfrau Cymraeg a Saesneg. Cafwyd ymateb da gan y rhieni a gwerthwyd nifer o lyfrau. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth.

Yn dilyn pleidlais ymysg yr holl rieni, mabwysiadwyd **Gwisg Ysgol.** Mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethol, dewiswyd y lliwiau swyddogol, sef — siwmper neu gardigan goch, lachar, trowsus neu sgert lwyd, crys gwyn a thei du â streipen goch.

Dangoswyd esiampl o'r wisg yn y Ffair Nadolig, ac ymddengys fod pawb wedi'u plesio â'r dewis o liwiau.

Ar Ragfyr 10 aeth holl blant yr Ysgol i Gastell Caernarfon i gymryd rhan yng 'Ngwyliau Syr Gruffydd' — Gweithdy gan Fyfyrwyr y Coleg Normal oedd hyn, gyda'r plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau tymhorol o bron i 700 mlynedd yn ôl.

Er fod y tywydd yn finiog oer, cafwyd croeso cynnes iawn ac fe fwynhaodd y plant eu hunain yn arw iawn.

Uchafbwynt y Tymor oedd y Gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd yn Eglwys Santes Helen. Eleni, gwnaed y casgliad tuag brynu ci i'r dall. Braf oedd gweld cymaint wedi troi i mewn i'n cefnogi unwaith yn rhagor.

Ar Ragfyr 19 gobeithir cael Cinio Nadolig gyda phawb yn uno yn y dathlu — gyda diolch i Anti Janice, Anti Mary ac Anti Liz am wneud y paratoadau.

Diolchir i 'Gyfeillion Ysgol Tan-y-Coed' am eu gwaith diflino drwy'r flwyddyn '90 — yn codi arian er budd Addysg y Plant.

URDD ADRAN BENTREF: Diolch i bawb a ddaeth i ddiddori'r plant yn ystod y Tymor. Bydd Parti Nadolig yr Urdd **nos Fercher, Rhagfyr 19,** yn Neuadd yr Eglwys. Dechreuir y tymor nesaf ar Ionawr 8, gyda 'Fy Hoff Beth'.

YSGOL SUL BOSRA: Croesawyd tri o aelodau newydd i'r Ysgol Sul a gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn y **pnawn** eleni, am 2.00 o'r gloch. Stori Babwshca fydd gan y plant ac mae croeso cynnes i bawb ddod i weld y perfformiad.

Bydd Parti Nadolig i'r plant yn Neuadd yr Eglwys ar y cyd â phlant Ysgol Sul Santes Helen. Mae Siôn Corn yn siŵr o alw. Fe'i cynhelir bnawn Gwener, **Rhagfyr 21.** Byddwn yn falch o unrhyw gymorth neu rodd.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn am 10.00 am ar Ionawr 13, 1991.

PWYLLGOR NEUADD: Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd, nos Lun, Tachwedd 26 yn Ysgol Tan y Coed. Yr enillwyr oedd: 1, B. Pritchard, Caernarfon; 2, Eiriona Williams, Glyn Euron; 3, R. Probert, 11 Tai Arthur.

Bydd croeso i unrhyw un ymuno ag aelodau'r Pwyllgor i Ganu Carolau o amgylch y pentref nos Wener, Rhagfyr 21 am **6.30 pm.** Byddwn yn cychwyn o **Lys y Gwynt.** Tynnir Clwb Cant Rhagfyr ar y noson.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r amrywiol weithgareddau yn ystod y flwyddyn 1990. Diolchir i Aelodau'r Clwb Cant ac atgoffir chwi y byddwn yn adnewyddu'r aelodaeth ym mis Ionawr 1991. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r Clwb, £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Gellir cysylltu ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

Gobeithir trefnu 'Noson Sant Dwynwen' nos Wener, Ionawr 25.

LLONGYFARCHIADAU: Dyfarnwyd ein Swyddfa Bost ni y fywiocaf a'r orau drwy Gymru. Llongyfarchiadau i Tony a Josephine Rees, a braf oedd gweld nifer o'r pentrefwyr yn rhannu'r fuddugoliaeth hon gyda hwy, b'nawn Mercher, Rhagfyr 5.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Mary J. Roberts, Llys y Gwynt ar


Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag
**ERIC JONES**
**17 BRYN TIRION**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: LLANBERIS 872421**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll



*Pentrefwyr Penisarwaun yn cyd-ddathlu llwyddiant eu Swyddfa Bost ar enill y wobr o fod y 'fywiocaf a'r orau' drwy Gymru.*

gyrraedd 90 oed. Pob bendith i chwi.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt, a'r teulu oll, o golli brawd yn Awstralia.

GWAELEDD: Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Mr Iorwerth Thomas, Bron Gaer, wedi'i driniaeth yn yr Ysbyty. Gobeithio y bydd pawb sy'n teimlo'n sâl yn gwella'n llwyr erbyn y Nadolig.

EGLWYS SANTES HELEN: Dydd Sul, Rhagfyr 23, bydd yr Esgob yn ymweld â'r Eglwys yn y bore. Am 2.30 pm cynhelir gwasanaeth o Garolau a myfyrdod ar y Di-gartref gyda'r Parch Tegid Roberts.

Yn dilyn y gwasanaeth bydd cwpanaid o de a mins pei ar gael yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i'r Wardeniaid am drefnu.

Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid fel arfer am 11.30 pm Noswyl y Nadolig.

APÊL PLANT MEWN ANGEN: Yn ystod yr ymgyrch codi arian i Blant Mewn Angen bu Sioned Wyn Jones, Andrea Paterson a Nia Lewis o amgylch y pentref yn casglu arian. Aethant â'r £35 a gasglwyd i Fangor y noson honno. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd a diolch i bawb am gyfrannu.

DIOLCH: Dymuna David a Wendy Phillips, 7 Tai Arthur, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab Gethin.

Dymuna Mrs M. J. Roberts, 5 Llys y Gwynt ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd wrth ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Ragfyr 11.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian Price Williams, Caer Bythod a Rhys Roberts o Benygroes ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da.

Llongyfarchiadau hefyd i Emyr Williams, Glyn Euron ar ei benblwydd yn 18 oed ar Ragfyr 17.

DYMUNIR Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda yn 1991 i'r pentrefwyr oll.


**IEUAN WILLIAMS**

Glanffrwd

**DEINIOLEN**

**Llanberis 870484**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb




**ROYAL VICTORIA HOTEL**

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da ★ Cwmni da



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



**YSTORFA MINFFORDD STORES**

GAEATHRO GAERNARFON

YR HEN BOST 1887–1987

AR TYRPEG 1817–1886

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda bawb oddi wrth RICHARD, MARIA a HARRIET

**Nwyddau Groser ● Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau**




**CYFARCHION NADOLIG CAEATHRO**

**Arwel Roberts**

3 Erw Wen, Caeathro

**673014**



GLANHAWR SIMNE

Dymuna Einir ac Arwel Nadolig Llawen a Newydd Dda i bawb

Os yw'r llwch yn y simne
Yn drwch uwch y tân
Down atoch â phleser
I'w sgubo yn lân

**MODURDY PLAS BACH**

**CAEATHRO**

**Ffôn; Caernarfon 2072**

GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN

**GWALIA GARAGE, CAEATHRO** Ffôn: 673096






**M. O. T. ● TRWSIO CEIR ● GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR**

# CHWILOTA

## CARDIAU POST — 'NODDFA'R WYDDFA'

**Tybed ydi'r enwau Eric Edwards a John Edwards yn golygu rhywbeth i drigolion Llanberis? Tad a mab o ffotograffwyr oeddynt, yn arbenigo mewn tynnu lluniau o olygfeydd ar gyfer cardiau post. Bu Eric, y tad, farw yn 1971; ond mae'r mab yn parhau'n fyw yn ei gartref yng Nghaerwrangon (Worcester).**

Bu John Edwards yn gymorth i nier o ddringwyr yn y pumdegau. Treuliodd oriau lawer ar waelod Clogwyn Du'r Arddu yn tynnu lluniau o'r clogwyni dan wahanol amgylchiadau.

Roedd dringwyr yn prynu ei luniau du-a-gwyn (wedi eu chwyddo) er mwyn astudio'r llwybrau dringo gorau ar hyd wyneb y graig.

Pan fyddai'r tywydd yn ddrwg, arferai gilio i gaban yr 'Halfway' am gysgod a lluniaeth. Cyhoeddodd gerdyn post arbennig o'r 'Halfway House' tua 1952 — ***'specially for the Williams family who kept that most excellent establishment serving tea and good food to walkers and climbers.'***

Yn y cyfnod hwn, cerddodd i gopa'r Wyddfa dros 30 o weithiau mewn tair blynedd gan gario hen gamera pres ac efydd trwm Thornton Pickard a thripod gydag ef bob tro.

Yn 1956 rhoes y gorau i weithio ar ei ben ei hun, ac ymuno â chwmni enwog J. Arthur Dixon. Parhaodd ei dad i gyhoeddi'r cardiau post 'Halfway House' hyd ei farwolaeth yn 1971.

Oes rhywrai o 'deulu Williams' yn cofio'r ffotograffwyr hyn? A beth am fwy o hanes y noddfa enwog hon i gerddwyr dringwyr ar lethrau'r Wyddfa?

### Cystadlaethau Llyfrau

**Llongyfarchiadau i dîm dosbarthiadau 3 a 4 Ysgol Brynrefail, sef Llinos Jones, Catrin Tomos, Sara Wood a Menna Williams ar ennill yn eu categori yn rownd gyntaf Arfon. Trefnir y cystadlaethau llyfrau yn flynyddol gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd.**

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

CLWB CANT YSGOL DOLBADARN Enillwyr y Clwb Cant am fis Rhagfyr yw — £25: Nia Williams, Tyddyn Andrew, Bethel (9); £15: Margaret W. Jones, 2 Llainwen Isaf, Llanberis (104); £10: Alwen Jones, Angorfa, Coed y Glyn, Llanberis (164).

Enillwyr y gwobrau Nadolig yw — £50: Mrs Jane Roberts, Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, Llanberis (78);; £50: Mrs Joan Huws, 1 Stryd Tomos, Llanberis (50).

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan ar Dachwedd 29, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Jean Elis ar ôl ei hymweliad â'r ysbyty. Diolchwyd i Mrs Jan Davies a Mrs Glenys Jones am roddi'r dorch ar y gofgolofn ar Sul y Cofio.

Darllenwyd yr Adroddiad Blynyddol gan yr ysgrifenyddes ac adroddiad o'r cyfrifon gan y drysoryddes.

Croesawyd Mrs Pat Jones VCO, a Mrs Carol Houston fel 'teller' i arolygu y gwaith o ethol Swyddogion a Phwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dyma ganlyniad yr etholiad: Llywydd: Mrs Hannah Jones; is-Lywydd: Mrs Jan Davies; Ysgrifenyddes: Mrs Eluned Mai Jones; Trysoryddes: Mrs Glenys Jones; Pwyllgor: Mrs Betty Jones, Mrs Arvonia Evans, Mrs Betty Humphreys, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Eluned Mai Jones, Mrs Glenys Jones, Mrs Hannah Jones, Mrs Katie Williams, Mrs Jan Davies, Mrs Dilys Phillips, Mrs A. M. Evans, Mrs Katie Griffiths, Mrs Dorothy Thomas a Mrs Jean Elis. Trefnydd y Tripiau fydd Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Katie Williams yn trefnu Siaradwyr.

Y gwestwragedd oedd Mrs Betty Humphreys, Mrs Arvonia Evans a Mrs Jean Elis.

Diolchwyd i Mrs Pat Jones a'r 'teller' gan Mrs Hannah Jones a Mrs Betty Humphreys. Enillwyd y raffl gan Mrs Arvonia Evans.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 31, 1991.

DIOLCH: Dymuna Nia Williams, Tyddyn Andrew, Bethel, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chwsmeriaid 'Hairlines', Llanberis, am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniwyd tra bu yn yr ysbyty.

Dymuna Lliwen Hughes, 1 Stryd Tomos, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar ôl iddi fod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Llion Hughes, 1 Stryd Tomos, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 18 oed ar Hydref 4.


# PADARN ENTERTAINMENT

870071

Ffoniwch i ordro eich ffilm rwan rhag cael eich siomi

**ORIAU AGOR**

24ain AR AGOR 11am – 5.30 pm
25ain AR GAU
26ain AR GAU
27ain AR AGOR 11am – 9 pm
28ain AR AGOR 11am – 9 pm
29ain AR AGOR 11am – 9 pm
30ain AR GAU
31ain AR AGOR 11am – 5.30 pm
IONAWR 1af AR GAU
2il AR AGOR 11am – 9 pm
(Amser Cinio 2 pm – 2.30 pm)

**FFILMIAU I'W ORDRO AR GYFER Y NADOLIG**

AWOL • DARK ANGEL
PRETTY WOMAN • WITCHES
ERNEST SAVE CHRISTMAS
UP WORLD
NIGHTMARE ON ELM STREET 5
WE'RE NO ANGELS
REVENGE (Kevin Costner)
NATIONAL LAMPOONS CHRISTMAS VACATION
SHE DEVIL • HARLEM NIGHTS

**BARGEINION BENTHYG DROS NADOLIG!**

Dewch â'r hysbyseb hon hefo chi ac mi gewch **£1.50** oddi ar bob tair ffilm a rentiwch!!

(DROS Y 'DOLIG YN UNIG)

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N HOLL GWSMERIAID**

ar gyfer y Siop

**CROMPTON HOUSE, STRYD FAWR, LLANBERIS (Drws nesaf i'r Chemist)**

# Dyddiadur y Mis

**IONAWR 1991**
**1. Mawrth:** Blwyddyn Newydd Dda
**4. Gwener:** YR ARDAL: Clwb Eryri yng ngwesty Gwynedd, Llanberis. DEINIOLEN: Bingo yn ystafell y Band, 8.00.
**8. Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr. Darlith gan Dewi Tomos, 7.30. PENISARWAUN: Yr Urdd.
**10. Iau:** CWMYGLO: Clwb Pobol y Cwm. BETHEL: Yr Urdd.
**11. Gwener:** PENISARWAUN: Cyfeillion Ysgol Tanycoed — Parti Calan. DEINIOLEN: Bingo — Ystafell y Band, 8.00.
**13. Sul:** PENISARWAUN: Ysgol Sul yn ail gychwyn.
**14. Llun:** DEINIOLEN: Sefydliad y Merched. WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol — Darlith gan y Parch Iorwerth Jones Owen.
**16. Mercher:** WAUNFAWR: Yr Urdd, 6.00.
**18. Gwener:** DEINIOLEN: Bingo, Ystafell y Band, 8.00.
**21. Llun:** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched. DEINIOLEN: Merched y Wawr.
**25. Gwener:** Noson Santes Dwynwen. DEINIOLEN: Bingo — Ystafell y Band, 8.00.
**31. Iau:** LLANBERIS: Sefydliad y Merched.


**Y Bistro**
43-45
Stryd Fawr
**LLANBERIS**
**Ffôn 871278**


Discownt o 10% i bartion ym mis Ionawr.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Danny** a **Nerys Roberts** a'r staff



**W.H. JONES**
Trydanwr
**Green Bank**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**Ffôn: Llanberis 871470**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati
Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda





## CROESAIR RHAGFYR



**Yr enillydd oedd:** Mrs Jean Hughes Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli, eto!!

# CROESAIR IONAWR



**Ar Draws**

1. Prifysgol Aberystwyth (5,3,1,2)
2. Delwedd gyhoeddus dder byniol (3,2)
9. Cicio sodlau! (7)
10. Heb ei gau yn iawn (7)
11. Pentref ger Beddgelert (ar lafar) (5)
12. Term Llŷn am fod yn ffrindiau mawr (6)
14. Cadw fy enw yn lân (3,3)
18. Sylwedd sy'n llifo (5)
19. Melysfwyd Pwllheli i'r rhai pluog (3,4)
21. Talu crocbris am rywbeth i'w rwbio (3,4)
23. 'Swejan' i rai (5)
24. Nid -- --------- o'r Beibl a fu ond nifer ohonynt (2,9)

**I Lawr**

1. Ceir cnau ar rhain (4,3)
2. 'O --- - ---' chwedl T. R. Hughes (3,1,3)
3. Carreg Gwalch, Dwyfor neu Gwynedd hwyrach (5)
4. Gwaith athro! (6)
5. O fewn y benglog (7)
6. 'Hen --- fach bert yw fy --- bach i' (3)
7. Enillydd y Fedal Ryddiaith (5)
13. Dylid sylwi ar a cheisio dilyn hyn (5,2)
15. Mae wedi cyrraedd i osod y llechi ar y to (3,1,3)
16. Pwllheli dydd Mercher a dre ddydd Sadwrn (7)
17. 'Nid ar redeg y mae ------ (6)
18. Teilyngu (5)
20. Honna Glyn Jones fod ei gantorion yn gwneud --- -- (3,2)
22. Pren yr ysgwydd neu ddiwrnod (3)

### Atebion i Groesair Rhagfyr 1990

Dau ateb cywir yn unig a ddaeth i law y mis hwn. Mae'n rhaid fod y rhan fwyaf ohonoch yn rhy brysur yn siopa at y Nadolig!

Dau enillydd y mis diwethaf oedd â'r unig atebion cywir. Neb o fro'r 'Eco' wedi cwblhau'r croesair yn gywir.

Mae hyd at ddiwedd Ionawr gennych i gwblhau croesair y mis hwn. Anfonwch eich atebion i'r Golygydd Erthyglau, Bron-y-Nant, Llanrug, Caernarfon, erbyn dydd Mawrth, Ionawr 22, 1991.


# KMP LLANBERIS

**RHAGFYR 24ain** — Bydd y bws olaf yn gadael o **Lanberis** i **Gaernarfon** am 5.30 ac o **Gaernarfon** i **Lanberis** am 6 pm. **RHAGFYR 25ain a 26ain** — Dim bysus
**RHAGFYR 27ain – 31ain** — Gwasanaethau arferol
**IONAWR 1af 1991** — Dim Bysus **IONAWR 2il** ymlaen — Gwasanaethau arferol
**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB**

# CHWARAEON

## SNWCER

## Cwpan Coffa Glyn Penny

Cynhaliwyd rownd derfynol 'Cwpan Coffa Glyn Penny' yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanberis yn ystod y mis. Dyma'r tro cyntaf i'r gystadleuaeth snwcer yma gael ei chynnal, ac fe gyflwynwyd y tlws hardd gan deulu'r diweddar Glyn Penny. Bu ef ei hun yn aelod ffyddlon o'r clwb ac yn cynrychioli'r tîm snwcer tan ei farwolaeth ychydig yn ôl.

Hyfryd oedd croesawu aelodau o'i deulu i'r neuadd. Daeth Huw, John, Rita a Mandy (wyres) ynghyd i gyflwyno cwpan coffa eu tad i'r enillydd fel y gwelir yn y darlun uchod.

Dau frawd fu'n ymgiprys am y cwpan, sef Oliver a Trevor Edwards, ac fe gafodd aelodau'r Clwb noson bleserus iawn yn gwylio'r cystadlu brwd. Trevor ddaeth i'r brig, ac ef yw deiliad cyntaf y tlws.

Meirion Evans, Cadeirydd y Clwb, oedd y dyfarnwr gyda Dafydd Roberts yn sgorio.



*Trevor Edwards, enillydd cyntaf Cwpan Coffa Glyn Penny.*

## PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL

Mewn gemau yn erbyn Ysgol David Hughes yn ystod y mis bu tîm y flwyddyn gyntaf yn fuddugol o 2 gôl i 1, yr ail yn gyfartal 3-3, blwyddyn 4 yn ennill o 4 gôl i 2 a'r tîm hŷn yn colli'n drwm o 6 gôl i 0.

Cael eu baeddu wnaeth y rhai hŷn hefyd gan Ysgol Gyfun Llangefni wythnos yn ddiweddarach, a hynny o 5 gôl i 1. Daeth llwyddiant i dîm yr ail flwyddyn unwaith eto, 3-2 mewn gêm hynod o gyffrous, a bu'r bedwaredd hefyd yn fuddugol o 3 i 0.

Bu Jonathan Davies, Simon Williams ac Iwan Parry yn chwarae dros dîm dan 14 oed Arfon yn erbyn Meirionydd yn nhreialon Sir Gwynedd. Fe enillwyd y gêm o 6 gôl i 2, gyda Jonathan yn sgorio pedair.

Yn Harlech, yn erbyn Meirionydd hefyd, bu 5 o fechgyn yr ysgol yn cynrychioli tîm dan 15 oed Arfon ar y 7fed o'r mis. Gavin Allen oedd sgoriwr un o'r ddwy gôl mewn buddugoliaeth o 2 gôl i 0. Andrew Jones, Siôn Hughes, Raphael Ginsberg a Simon Murphy oedd y chwaraewyr eraill.

## Y CWIS

Gan mai hwn yw rhifyn y Nadolig, cwestiwn â naws Nadoligaidd iddo ddaw gynta' y mis yma, ond cyn hynny, atebion cwestiynau mis Tachwedd.

**Bryan Fletcher** oedd joci Red Rum pan enillodd y National am y ddau dro cyntaf; y **brodyr Chappell, Ian a Greg**, o Awstralia sydd wedi chwarae mewn 43 gêm brawf gyda'i gilydd; **Hammersmith a Barnes** yw'r ddwy bont y bydd rhwyfwyr Caergrawnt a Rhydychen yn mynd tanynt ar y Tafwys; yn **1976** yr enillodd Barry Sheene y bencampwriaeth 500cc am y tro cyntaf; **Billy Meredith** yn 45 mlwydd a 229 diwrnod oed oedd y Sais a chwaraeodd dros Gymru; **Arthur Milton** oedd yr olaf i chwarae criced a phêldroed dros Loegr, ac am **chwarae marblis** mae'r Toucan Terribles yn enwog. **Notts Forrest**, wrth gwrs fu'n ddiguro am 42 gêm rhwng 1977 a '78 a'r enwog **Stanley Matthews** oedd yr 'European Footballer of the Year' cyntaf yn 1956. **Archie Moore** enillodd 145 gornest drwy K.O.

**Beth am grafu'r gên dros rhain yn ystod yr Ŵyl?**

1. Ar ddydd Nadolig 1936 fe grewyd record sy'n dal i sefyll mewn gêm gynghrair rhwng Wrecsam a Halifax. Beth ddigwyddodd?
2. Ym mha ddinas yn Lloegr y trefnwyd rhan o'r ras feiciau y Tour de France yn 1974?
3. Pwy fu'n dal record y byd am y naid hir i ddynion rhwng 1935 a 1960?
4. Pwy yw'r unig chwaraewr tenis fu'n chwarae mewn dwy ffeinal i ddynion yn Wimbledon gyda bwlch o 20 mlynedd rhyngddynt?
5. Ym mha sbort mae un tîm bob amser yn gwisgo glas tywyll a'r llall mewn gwyn?
6. Pwy fu'n drech na Muhammad Ali yng ngornest ola'r cyn-bencampwr yn 1980?
7. Ym mha gêm mae Dennis Thatcher (ie, Mr Maggie!) wedi pasio fel reffari?
8. Pwy yw'r unig chwaraewr o du allan i Brydain i ennill pencampwriaeth y byd mewn snwcer?
9. Beth sy'n gyffredin i'r siroedd criced Northants, Somerset a Sussex?
10. Beth yw'r sgor uchaf erioed mewn gêm dosbarth cyntaf ym Mhrydain, a rhwng pa ddau dîm?

## PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Nos Fercher, Rhagfyr 12, yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, fe gynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas. Bu trafod brwd ar aml i bwnc tost a'r penderfyniad pwysicaf i ddeillio o'r cyfarfod yw na fydd 'sgota'r corgimwch yn cael ei ganiatau ar unrhyw ran o ddyfroedd y Gymdeithas o hyn ymlaen.

Penderfynwyd hefyd i godi'r tâl aelodaeth i £45 i aelod lleol, yr arian i fod mewn llaw cyn 1:3:91. Bydd y tâl i eraill yn £66 i'w dalu hefyd cyn 1:3:91. Mae nifer yr aelodau nad ydynt yn byw'n lleol i'w gyfyngu i 75 ac os bydd rhai o'r 75 tocyn yma heb eu gwerthu ar ôl y dyddiad penodedig, bydd y tâl ymaelodi yn cael ei godi.

Mae'n rhaid ystyried mai dyma'r codiad cyntaf yn y pris ers 1988, ac o feddwl y gellir pysgota dros ddeugain milltir o afonydd eog a brithyll yn ogystal â phedwar llyn, a chyda'r ddeorfa nawr bron a chael ei chwblhau, mae pris y tocyn yn fargen.

Yn ystod y tymor diwethaf daeth dau becyn o dir ar lan yr afon Seiont i berchnogaeth y Gymdeithas, hyn yn ehangu'r buddiannau ac yn golygu fod tiroedd yr ardal yn cael eu sicrhau i'r gymuned leol am oes. Mae'n biti nad oes cymorth o gwbwl i'w gael o unrhyw ffynhonell i'n cynorthwyo i ehangu'r gwaith yma.

I'r rhai sydd yn hoffi llenwi eu dyddiadur ar ddechrau'r flwyddyn, cewch nodi dwy o gystadlaethau'r Gymdeithas yn '91, sef Padarn ar Mai 18, 1991 am ddau o'r gloch y prynhawn ('sgota oddiar gychod), a hefyd Llyn Cwellyn, eto am ddau o'r gloch, ond oddiar y glannau. Cewch fwy o fanylion mewn rhifyn eto o'r Eco.

O ddarllen y rhybuddion cyhoeddus yn y papurau lleol deallir bod y fferm bysgod ym Mhontllyfni eisiau trwydded i dynnu mwy o ddŵr o'r Llyfni. Mae'r fferm eisoes ar adegau wedi sychu'r afon yn gyfangwbl, a pha reswm sydd i ychwanegu at y difrod? Fe addawyd i Gyngor Dwyfor y byddent yn cyflogi deugain o bobl leol; gofynnwch i bobl Pontllyfni faint o waith sydd yno.

## IEUENCTID YN DISGLEIRIO



*Gwelir yn y darlun ddau o chwaraewyr addawol Clwb Pêl-droed Llanrug. Bu Gareth Jones a Mark Jat yn cynrychioli tîm cynta'r pentref a hefyd dîm ieuenctid Gogledd Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf.*

*Gyda'u llwyddiant hwy, a hefyd yr anrhydeddau a ddaeth i ran Marc Williams o Glwb Pêl-droed Llanberis yn ddiweddar, mae dyfodol y gêm yn ardal yr Eco'n sicr am rai blynyddoedd.*




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



**E.W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**

**Ffôn: 870202 a 870272**

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI